

Daniel James Wakely
Drama *Gwenllian: Y tu ôl i'r llen*
a thraethawd ar *Beth yw Prif Elfennau Drama Lwyddiannus?*

Cyflwyniad i Brifysgol Abertawe
er mwyn gofynion y radd
MA Cymraeg: Ysgrifennu Creadigol.

Prifysgol Abertawe
2023

Crynodeb

Wrth ddarllen y gwaith hwn, deuir ar draws drama sy'n seiliedig ar y dywysoges Gwenllian, merch Gruffudd ap Cynan, a thraethawd ar brif elfennau drama lwyddiannus. Mae'r traethawd hefyd yn adfyfrio ar fy mhrofiad i o gyfansoddi'r ddrama ar gyfer gofynion y radd MA.

Ceir yma ddrama sy'n canolbwyntio mwy ar y dywysoges ei hun, ei chymeriad, yn hytrach na'r hanes. Rwy'n teimlo bod fy nrama yn cynrychioli ei hemosiynau a'i chwant yn fwy felly na dim arall, a dyna'r hyn rwy'n teimlo y dylai drama dda ei gynnig i'r gynulleidfa'n bennaf, sef, cymeriad yn ei ddigwydd. Mae fy nrama nid yn unig yn darparu rhywfaint o wybodaeth hanesyddol allweddol, ond hefyd yn amlygu'r posibiladau eraill, yr hyn a allai fod wedi digwydd. Mae hyn yn caniatáu i'm drama fod yn addysgiadol o hyd, ond heb os, mae elfen ffuglennol yn perthyn iddi. 'Nes na'r hanesydd at y gwir digoll / Ydyw'r dramodydd sydd yn gelwydd oll', chwedl R. Williams Parry.

Mae'r traethawd yn rhoi cipolwg ar yr hyn y mae'n rhaid i ddramodydd ei ystyried er mwyn llunio drama lwyddiannus. Mae hefyd yn arddangos yr hyn a fu'n ddylanwad arnaf fi, yr awduron yr wyf wedi dod ar eu traws, y dramâu a'r erthyglau sydd wedi cyfrannu at fy nealltwriaeth wrth i mi gyfansoddi drama ar gyfer y radd MA.

Roedd darllen llyfrau, dramâu ac ystyried barn awduron ar gelfyddyd y ddrama nid yn unig o fudd i'm traethawd a'i gynnwys ond hefyd fy nrama a'm crefft gyfansoddi bersonol.

Trwy'r traethawd, rwy'n ceisio adfyfrio ar fy mhrofiad, a chymharu fy ngwaith â'r hyn y mae'r beirniaid yn cyfeirio ato, gan ddangos sut yr wyf wedi defnyddio eu cyngor yn fy nrama gan hefyd, weithiau, roi fy marn i ar ambell agwedd o grefft y ddrama.

Datganiadau

CYHOEDDIAD

Nid yw'r gwaith hwn wedi'i dderbyn o'r blaen yn gyffredinol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd.

Llofnod: [REDACTED] (Ymgeisydd)

Dyddiad: 20/08/2023

DATGANIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau fy hun yw'r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Cydnabyddir ffynonellau eraill drwy droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau amlwg. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod: [REDACTED] (Ymgeisydd)

Dyddiad: 20/08/2023

DATGANIAD 2

Rwyf drwy hyn yn rhoi caniatâd i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i'w rannu'n electronig ar ôl i'r gwaharddiad ar fynediad a gymeradwywyd gan Brifysgol Abertawe ddod i ben.

Llofnod: [REDACTED]

Dyddiad: 20/08/2023

Tudalen Gynnwys

Diolchiadau	5
Gwenllian: Y tu ôl i'r llen	6
Act 1 - 1116	7
Act 2 - 1127	19
Beth yw Prif Elfennau Drama Lwyddiannus?	30
Cymeriad neu Blot	31
Syniad	36
Thema a Genre	38
Amser	40
Lleoliad a Chyfarwyddiadau	43
Sain	46
Deialog ac Iaith	49
Llyfryddiaeth	56

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i Brifysgol Abertawe am hwyluso fy ymchwil a lluniad fy nrama.

Hoffwn hefyd ddiolch i fy holl ffrindiau a theulu sydd wedi fy nghefnogi yn ystod dwy flynedd diwethaf yr MA hwn.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Athro Tudur Hallam am ei gefnogaeth a'i gyngor ar hyd fy nhaith, mae wedi bod yn bleser ei gael fel mentor.

Gwenllian:
Y tu ôl i'r llen

Act 1 - 1116

Ystafell wely Gruffudd ap Cynan. Gwely mawr ar ochr chwith yr ystafell, aur yw ei ffrâm a'r llyeiniau'n goch a gwyn ac o'i flaen, ceir cist frown a chwpan aur yn eistedd arni. Gwelir un paentiad mawr yng nghanol yr ystafell o'r brenin Gruffudd ap Cynan ac o'i flaen ceir carped o anifail, arth brown.

Clywir sylwadau cyngorwyr y brenin yn dilyn eu cyfarfod gyda'r llysgenhadon cyn i unrhyw un ddod i mewn i'r ystafell: "Wn i ddim, frenin, a yw hyn yn syniad da. Dim ond llanc yw Gruffudd ap Rhys, ac fe gwyd Deheubarth cyfan yn ein herbyn os lladdwn ef." "Ac eto, mae'n gyfle. Dan nawdd Brenin Lloegr, oni allwn ennill tiroedd i Wynedd drwy ymosod ar Ddeheubarth?"

Dyma ddrws derw, euraidd yr ystafell yn agor wrth i swm y lleisiau ddychwelyd. Mae dau warchodwr, mewn arian sgleiniog yn agor y drws. Wrth i'r drws agor, rydyn ni'n dechrau gweld hen ddyn cyfoethog a choron ar ei ben a thu ôl iddo ferch ifanc mewn ffrog denau goch a gwyrdd ac yn gwisgo ar ei phen hithau goron ac arni gemau gwynion.

Dyma Gruffudd ap Cynan yn bwrw ymlaen trwy'r drysau wrth iddyn nhw agor, ei law ar ei geg, ei wyneb yn goch a dagrau yn ei lygaid ac yn dilyn yn ei gysgod, wele Gwenllian, yn cerdded yn gyflym tu ôl i'w thad gan geisio dal i fyny ag ef, ac yna, yn rhoi ei llaw ar ei ysgwydd.

Gwenllian: Mi welaf fod cyngorion y llys yn dal yn eich plagio, fy mrenin, yn troi fel sarff yn eich meddwl. Peidiwch â gwrando arnyn nhw. Chi yw'r...

Ond wrth iddi hi ddal ei ysgwydd ac agor ei cheg, dyma'r brenin yn troi ati ac yn rhoi bonclust iddi hi ar draws ei hwyneb, gan dynnu gwaed o'i boch.

Gruffudd: Peidiwch â dweud wrthyf be' y dylwn i ei wneud! Plentyn bach ydych chi... fy mhlentyn i (*gan daro ei frest â'i law dde*).

Mae drws yr ystafell yn cloi. Distawrwydd.

Gruffudd: Tair awr... tair awr y bu'n rhaid i mi eistedd ar fy ngorsedd yn y neuadd fawr yn gwrando ar lysgennad y Brenin yn cwyno am Gruffudd ap Rhys o Ddeheubarth; gwrando arno'n rhefru am ei frad eto yn erbyn y Brenin, ac yn erbyn Gwynedd. Ac yn fy ngorchymyn i i'w ladd, darfod ei einioes, ei ddileu.

Gwenllian: Ydych chi'n siŵr mai dyna'r peth gorau i'w wneud fy mrenin? Bydd ymosod ar Ddeheubarth yn achosi cythrwfl a chynnen. Fe gwyd Deheubarth cyfan yn ein herbyn os lladdwn ni Gruffudd ap Rhys.

Gruffudd: Nid oes dewis gennyf Gwenllian! Os na fyddaf yn ei ladd, bydd Henri yn trefnu i'm lladd i, a'm teyrnas.

Gwenllian: Y naill ffordd neu'r llall, mae brwydr yn ein haros, boed hynny wrth law Deheubarth a Gruffudd ap Rhys neu wrth law Henri a'i fyddin. Gadewch imi ofyn, felly, onid yw'n well ymladd yn erbyn Lloegr, y wlad sydd am ein cadw dan ei bawd, nag yn erbyn brodyr cyfaith?

Saib. Cymera Gruffudd eiliad i gasglu ei feddyliau wrth iddo syllu i'r gwagle.

Gruffudd: Duw a'm gwaredo. Fedra' i ddim Gwenllian. Fedraf fi ddim ymladd yn erbyn Henri nac anufuddhau i'w orchmynion. Pa ennill sydd o ymladd yn erbyn Henri a'i fyddin? Byddwn i ond yn ei fradychu ac yn atebol i'r un gosb â'r bradwr hwnnw, Gruffudd ap Rhys.

Gwenllian: Bradwr, fy mrenin? Sut allwch chi ddefnyddio gair mor llym yn ymyl ei enw ef? Ai ddoe oedd hi a chithau'n ystyried cynnig y gefnogaeth yr oedd ei hangen arno i ddiogelu ei dywysogaeth?

Gruffudd: Onid yw hynny'n gwneud yr enw hwnnw'n fwy priodol felly? Gofynnais a phlediais ag ef. Erfyn arno i anghofio am deyrnas ei dad, ond ni wnaeth hynny, y ffŵl gwirion. Yr hen a wŷr, a'r ifanc a dybia.

Gwenllian: Fy mrenin, erfyniodd am eich help. Arhosodd ddyddiau i chi newid eich meddwl ac ymladd wrth ei ochr, fel y gallai hawlio'r hyn sy'n eiddo iddo. Mewn difri' calon, sut allwch chi ofyn iddo anghofio'r fath beth?

Gruffudd: Gan na all ef fyth ennill! Ymladdaf fi ddim mo'r un achos coll. Peryglu fy nheyrnas pan fo amodau'r hapchwarae mor gryf yn f'erbyn. Fe ymrois i gyfaddawd enfawr trwy ganiatáu iddo aros yma. Fe welsoch chi mor anhapus oedd llysgenhadon y Brenin pan dd'wedais wrthynt ei fod yma, dan f'awdurdod. Feiddiwn i ddim chwanegu fy mod i wedi cynnig lle iddo aros tra oeddwn i'n pendroni ac yn 'styried cynnig fy nghefnogaeth iddo.

Gwenllian: Cânt wybod yr hyn rydym ni am iddynt ei glywed.

Gruffudd: O wneud, 'fyddwn i fawr gwell na Gruffudd ap Rhys yng ngolwg Henri. Os edifarhaf am fy nghamwedd yn awr, a gwneud ewyllys y Brenin, mae siawns go dda y caiff fy mywyd a'm teyrnas lonydd gan Henri ac na ddiodefwn yr un dynged â'r bradwr.

Gwenllian: A beth yw camwedd Gruffudd ap Rhys? Fy mrenin, dim ond yn ymladd i adennill teyrnas ei dad a rhyddid ei frawd y mae ef. Sut bosib y mae'n fradwr? Mae'n ymladd dros ei etifeddiaeth, a thros yr hyn y mae'n ei garu.

Chwardd Gruffudd yn goeglyd cyn iddo ymateb.

Gruffudd: Cariad? (*gan chwerthin yn goeglyd eto*) Ydych chi'n wir yn credu y bydd y Brenin Henri yn gwrando'r un eiliad ar y fath amddiffyniad, y fath gyfiawnhad teimladwy?

Gwenllian: Na, ddim o gwbl, ond mi rydw i yn disgwyl eich bod chi o leiaf yn cydymdeimlo, yn deall yr hyn y mae'n ceisio ei wneud, a'r rheidrwydd sydd arno i amddiffyn ei etifeddiaeth. Meddwl roeddwn i y byddai eich cydymdeimlad wedi rhoi cymorth iddo.

Dyma eiliad o dawelwch cyn i Gruffudd ymateb.

Gruffudd: Mi welais y ffordd roedd y ddau ohonoch yn edrych ar eich gilydd. Y ddau ohonoch yn ddiwahân pan oedd y llanc yma. Ac yn awr, rwy'n gweld eich bod yn ei amddiffyn fel pe bai mor agos atoch ag un o'ch teulu. Dywedwch wrthyf, a fu 'na glosio rhyngoch? Cyfnewid addewion hyd yn oed? Dydw i ddim yn ffŵl. Fel y d'wedais, yr hen a wŷr.

Golwg o gyffro dros wyneb Gruffudd, ac yntau'n sylweddoli beth y mae newydd ei ddweud.

Gruffudd: Gwenllian. Does ond un opsiwn, 'welwch chi. Does ond un ffordd i sicrhau diogelwch y deyrnas, i gadw Henri led braich oddi wrthym. Mewn gair, priodas. Mae'n rhaid i chi briodi rhywun o rym yn Lloegr. Bydd yn rhaid iddo fod yn wŷr o dras, yn wŷr o gyfoeth a dylanwad, yn wŷr a fyddai'n barod i ymladd yn erbyn Henri, pe bai'r galw am hynny'n codi.

Gwenllian: Ond frenin, dim ond merch bymtheg oed dw i, merch sydd ond wedi dechrau profi bywyd, merch ddiniwed. Ydych chi wir am droi fy mywyd yn beth i'w fargeinio ag ef? Eich eiddo. Eich trefniant. Merch a all fod yn eiddo i rywun arall, na fydd o bosib ag owns o ofal am fy lles? Oni chofiwch chi stori Branwen?

Wele Gruffudd yn llawn rhwystredigaeth, yn taflu'r cwpan sydd ar ben y gist.

Gruffudd: Er mwyn y nefoedd ferch... oes rhaid i mi ddeddfu cyn i chi wrando arna'i, neu alw eich mam atoch iddi hi esbonio, i chi ddeall yn iawn yr iaith rydw i'n ei siarad. Mae angen i chi briodi. Mae'n hen bryd. 'Dych chi yn yr oed ac o ddefnydd i'r deyrnas, o ddefnydd i mi.

Gwenllian: Fy nhad, a fŷm i erioed yn ferch i chi, a chithau'n edrych arnaf i fel eich merch, a hynny'n unig? Ac a fu fy mam erioed yn rhywbeth mwy na pheiriant planta? Onid oes 'na gariad rhyngoch? Ac oni chaf finnau garu? Onid wyf finnau'n cyfri' lawn cymaint â'r deyrnas i chi?

Dyma bopeth yn dawel am eiliad rhwng y ddau. Dim ond sŵn y dorfo werin rydym yn ei chlywed a Gruffudd yn griddfan iddo 'i hun wrth iddo fyseddu defnydd ei wisg gan gamu i'r gist yn ymyl ei wely ac yna eistedd arni fel hen ddyn.

Gruffudd: Wyth oed oeddwn i. Wyth mlwydd oed yn byw gyda fy mam. Mil dim chwech tri. A wyddoch chi beth ddigwyddodd y flwyddyn honno ferch?

Gwenllian: Mi wn i, fy mrenin.

Gruffudd: Wel, 'droddwch yr hanes, ferch! (*gan bwyso ymlaen ar y gist*)

Gwenllian: Mil dim chwech tri... darostyngiad Gruffudd ap Llywelyn. Gyrrodd yr iarll Saesonaidd Harold ei fyddin i ogledd Cymru a threchu Gruffudd ap Llywelyn. Collodd cynifer o bobl eu cartrefi, eu da byw a'u bywydau. Roedd hi'n awr ddu ar y Cymry i gyd.

Gruffudd: Da gweld na fu eich addysg yn llwyr ofer; ei bod o ddefnydd i chi. Ond mae 'na un darn allweddol o wybodaeth ar goll yn eich traddodiaid. Un bwlch yn y cofnod. Collodd un plentyn pwysig ei dad y flwyddyn honno.

Saib

Gruffudd: Peidiwch â chwyno wrthyf am yr hyn y byddwch yn ei golli, yr hyn y byddwch chi'n ei aberthu pan fydd gennych chi eich teulu o hyd yn bymtheg oed. Cofiwch mor freintiedig ydych chi, fy merch, yn perthyn i'r teulu hwn, yn meddu ar y fath gyfoeth a chyfrifoldeb. Ym mhob braint y mae dyletswydd.

Dyma Gruffudd yn edrych ar y nenfwd am eiliad ac yna yn syth yn ôl ar Gwenllian.

Gruffudd: Ac yn awr rydych chi am esgus nad ydych yn dywysoges, a bod gennych chi hawl ar eich einioes? A ydych chi'n meddwl i mi gyfnewid fy nhad am fy nheyrnas, am fy nghenedl?

Gwenllian: Na fy mrenin (*a'i phen yn ei blyg*)

Gruffudd: Gwenllian, edrychwch arna i pan dw i'n siarad â chi ferch!

Gwenllian: Ymddiheuriadau, fy mrenin (*gan godi ei phen ac edrych ar Gruffudd*)

Gruffudd: Diolch (*saib*). Cwestiwn arall ferch. Beth ddigwyddodd ym mil dim wyth dau?

Gwenllian: Dyna ddydd priodi fy mam, Angharad ferch Owain, â chi fy mrenin.

Gruffudd: A beth oedd ei hoed hi ferch?

Gwenllian: Dwy ar bymtheg, fy mrenin.

Gruffudd: A gredwch chi fod yn eich mam yr adeg honno ysfa i roi ei bywyd hi i mi am byth, a hithau ond dyflwydd yn hŷn na chi? A gredwch chi iddi gydsynio am ei bod yn fy ngharu i? Duw a'n gwaredo! Na, roedd arni gyfrifoldeb, i'w theulu, i'w chenedl, ac i Fair ei hun. Felly chithau. Ac felly eich brawd, Owain, nad oes ganddo ddewis ond bod yn etifedd i mi.

Cymera Gruffudd ochenaid ddofn.

Gruffudd : Mae'n rhaid i chi wneud hyn, fel y mae'n rhaid i mi ei ofyn. Dyna'r drefn. Eich cyfrifoldeb. Eich cyfraniad hefyd, i'r deyrnas, i'r genedl.

Gwenllian: Er na wnaeth y genedl fawr ddim erioed er fy mwyn i. Rhowch chi'r argraff nad fy mhlant i fydd fy mhlant i fyth, nad fi ydwyf fi, na chaf fi fyth fyw ar y ddaear hon.

Saif Gruffudd.

Gruffudd: Gwenllian! Er mwyn Duw, ffrwynwch eich tafod!

Gwenllian: Na wnaef fy nhad. Dim heddiw. Fi wyf fi. Rhaid i mi gael dweud hynny. Fi. Mi rydw i'n ferch. Yn berson. Ac oni wyddoch chi hyn, nad fi yw fy mrodyr na'm chwiorydd? Nid Owain mohono'i, a'ch gair yn ei wysio i hwylio â Henri i Ffrainc.

Gruffudd: O ho! Y fath ryfyg. (*dan chwerthin, mewn syndod ond yn eironig*) Merch ei thad, aie?

Saib

Gruffudd: Rydych chi'n siarad fel llysgennad yn herio'r Brenin. Felly pa berlau sydd gennych ar fy nghyfer i? Beth yw'r cyngor, ferch? Dewch, pregethwch ger fy mron drywydd y dyfodol!

Saib

Gruffudd: Pa un yw hi i fod? Pregethu neu ffrwyno eich tafod! Ha!
(*yn meddwl ei fod wedi ennill y ddadl*)

Mae Gwenllian bellach wedi ei chyffroi'n fwy amlwg, ei dwylo'n anniddig. Cerdda gam neu ddau ymlaen fel ei bod hi bellach ychydig o flaen y paentiad o Gruffudd ap Cynan.

Gwenllian: Wrth hwn, y mawr hwn, pa beth a ddywedaf? Gadewch...Gadewch inni gasglu ein lluoedd yn awr. Gadewch inni ymosod ar ein gelynion, yn yr awr ni thybiant. Yr elfen o syndod fydd eu tranc. Yn wir, mi af fy hun â byddin i Loegr. Gadewch i mi eu gyrru yn ôl, ymhell o erwau'n gwlad! Fe'm gwelsoch â'r cleddyf yn fy llaw. Rwyf gan mil gwell nag Owain.

Gwena Gruffudd o glust i glust.

Gruffudd: Ydych chi yn wir yn meddwl na thrawodd hyn ar fy meddwl innau? Y rheibio dirybudd yw'r llafn miniocaf un. Ond mae'n rhyfel na allwn mo'i ennill, Gwenllian. Mae ei fyddin yn enfawr. Yn enfawr.

Gwenllian: A dyna pam y dylem gasglu ein lluoedd yn awr ac ymosod arnynt, cyn i'w rhengoedd dyfu eto fyth.

Gruffudd: Fy mhlentyn, mae'r Cymry a'r Saeson wedi colli cymaint eisoes, ac mae'r Normaniaid wedi newid ein byd, ond y ni, heb os, a fyddai ar ein colled fwyaf o ddilyn dy gyngor rhyfel. Rwyf ti'n rhyfygus ac yn ifanc. Oni chofi di pwy yw mam pob daioni?

Gwenllian: Ond pa fath o arf yw amynedd, fy nhad? Pa ddiben goroesi i fyw o dan reolau'r gelyn am byth?

Dyma Gruffudd yn hollol ddifrifol, ei law chwith ar ei ên ac yn ysgwyd ei ben.

Gruffudd: O Gwenllian fach, 'dwyt ti ddim yn deall. Goroesi yw'r dyfodol. Goroesi yw'r nod. Os ymladd, yna, ymladd dros genedlaethau'r dyfodol, ymladd fel bod modd i ni oroesi. Does gennym ni ddim hawl i fod yn afradlon ac yn annoeth. Ai d'awgrym yw dy fod yn barod i wynebu difodiant y genedl, ond i ti gael profi dy werth yng ngwres y frwydr?

Gwenllian: Ond rydyn ni'n byw dan eu bodiau'n barod.

Gruffudd: O Gwenllian, pe baem ni'n ymladd ac yn colli, byddai'n uffern ar y ddaear i blant ein plant.

Gwenllian: Ond pa blant ein plant? Y rhai nad ydynt eto'n bod? Y rhai nad wyf fi eto'n medru eu dychmygu. Mae eich rhesymu'n gyfeiliornus. Nyni sydd yma yn awr. Chi a fi sydd yma'n nawr. A dw i o leiaf yn barod i ymladd.

Gruffudd: Hunanol! Wnes i erioed ddychmygu y byddai plentyn i mi mor rhyfygus hunanol! Ni fynnwch yn unig ddewis eich priod eich hun, ond hefyd eich brwydr a'ch bedd. Mae hyn, yn wir, yn fy ffieiddio i Gwenllian!

Gwenllian: Yr elfen o syndod fydd eu tranc. Mae'n wir, fy nhad. Mae'n wir. Mae'r dyn yn y llun yn fy nghredu. Y milwr, nid y gwleidydd.

Gruffudd: Hm. (*gan edrych ar y llun*) Hwyrach mai fe sydd ar fai, y milwr balch, y tad. Ddylai fe 'rioed fod wedi caniatáu ichi afael mewn cledd, cyd-hyfforddi ag Owain, cywilyddio'ch brodyr. Roedd y peth yn ddoniol, yn rhyfeddol hyd yn oed, merch â'r fath ddawn naturiol i ddarfod arfau. Ond bellach, na, dw i'n ofni i'r tad o filwr wneud cam â chi, ac i'r gwleidydd fod yn rhy absennol am yn rhy hir.

Cama Gwenllian tuag ato.

Gwenllian: Hunanol?! Pwy sydd am roi fy nghroth i'r prynwr haelaf? Y gwleidydd o dad, aie? Os felly, mi hoeliaf fi fy llygaid ar gadfridog y llun.

Gruffudd: Roeddech chi erioed, o oedran ifanc iawn, Gwenllian, bob amser yn chwennych mwy na'r hyn a oedd gennych. Byth, byth yn gwerthfawrogi'r hyn a oedd yn eich meddiant eisoes. Byth, byth yn gweld bod goroesi'n ddigon. Wastad yn gorfod ennill. Trechu.

Gwenllian: A fyddech chi'n hapusach pe bawn i yn awr yn gwehyddu, neu'n gofyn cân gan fardd y teulu, yn lle fy mod yma'n rhoi cyngor rhyfel i chi?

Gruffudd: Nid y ni piau'r un rhyfel, Gwenllian. Ac nid rhyfel mo'r ateb bob tro. Y genedl, Gwenllian. Ei goroesiad hi. Dyna'r hyn sy'n cyfri'. Y Cymry sy'n eich Caru chi fel eu tywysoges. Y rhai a â i ryfel a marw ar faes y gad, os rhof fi'r gair.

Gwenllian: 'Ofynnais i erioed iddyn nhw fy ngharu. Nid cariad sydd yn y llun hwnnw ar y mur. Edmygedd! Dyna ydyw. Cânt f'edmygu fel yr edmygir chi. Wela' i mo mam ar gyfyl y llun.

Gruffudd: Gwenllian! Un dydd... un dydd... cyn ei bo hi'n rhy hwyr, cyn i chi...

Dechreua Gruffudd ddirywio. Cwyd ei fraich chwith ar draws ei frest a'i law dde yn chwilio am y gist. Eistedda, ei gorff yn blyg fel pe bai ar ffin chwydu.

Mae Gwenllian nawr yn edrych yn bryderus.

Gwenllian: Beth sy'n bod fy nhad?!

Coda Gruffudd ei law dde, gan arwyddo iddi fod yn dawel.

Gruffudd: Fy mhlentyn... rwyf yn rhy hen i ymladd â thi eto. Rwyf fi dros fy nhrigain ac wedi ymladd llawer yn fy mywyd... ond nid wyf am ymladd â thi... fy merch, fy ngwaed.

Cwyd Gruffudd ei gorff a gorwedd yn ôl ar ffrâm aur y gwely.

Gruffudd: Dere yma Gwenllian. Rwyf yn hen a'm llygaid yn pylu.

Cerdda Gwenllian at Gruffudd nes iddi hi gyrraedd ei fraich chwith a saif wrth ei ochr. Rhydd Gwenllian ei llaw ar ei ysgwydd.

Gwenllian: Fi yw eich merch, fy nhad. Eich merch chi. Dyna i gyd. A chi a'm mam a'm cododd. Fi yw eich merch. Merch fy nhad.

Rhydd Gruffudd ei law ar wyneb Gwenllian, yn arwydd o gysur.

Gruffudd: Gwenllian, nid chwarae mo hyn. Nid cleddau o bren sydd gan Henri. Rhaid i ni fod ar ei ochr ef. Mae'n rhaid inni ddod ynghyd Gwenllian, er mwyn i'n pobl ni oroesi.

Tyn Gwenllian ei llaw o law ei thad.

Gwenllian: Ond fy nhad, hi'r awr o syndod. Mae'n dallu milwyr.

Gwena Gruffudd.

Gruffudd: Dwyt ti byth yn rhoi'r gorau iddi, Gwenllian, a fy mai i yw hynny, yn d'annog i dynnu'r gorau o Owain, a 'drych arnat ti nawr!

Edrycha Gwenllian ar ei thad a gwenu, ond yn rymus.

Gruffudd: Mae yna le ac amser i ryfel, Gwenllian.

Gwenllian: Yn union. Ac felly rhaid i ni ddechrau cynllunio yn awr.

Gruffudd: Dyna'r nod. Os priodi di dywysog o'm dewis i, bydd ein byddin yn cryfhau a bydd modd i ni ddechrau paratoi i ymladd y Brenin, ac ymladd i ennill.

Gwenllian: Ymhen blynyddoedd efallai! A finnau'n briodferch ac nid yn filwr. Mi garwn i gael dewis fy ngŵr fy hun, fy nhad. A yw'r syniad mor gwbl estron i chi?

Gruffudd: Oni chredi y gall cariad dyfu, fel y tyfodd ein cariad ni. Roedd 'na ddydd pan nad oeddwn i'n d'adnabod ferch.

Saib

Gruffudd: Bydd, mi fydd hi'n flynyddoedd. Rhyfel yn erbyn Henri? Fesul blwyddyn a dros sawl blwyddyn yw'r unig amserlen bosib. Ac o fod yn ei gynghrair, dyna sut y maeddwn ef, gan na fydd ef fyth yn ein hamau.

Edrycha Gwenllian ar ei thad, gan geisio deall ei feddwl.

Gruffudd: Dyna'r ffordd i ennill, y ffordd i oroesi, ffordd y dyfodol.

Gwenllian: Ond mae cynllunio... cynllunio'r dyfodol bob amser yn anodd, a siawns go dda y daw Henri i'n hamau. Oni fydd ganddo yntau lygad ar eich trefniadau priodas? Fe ddaw o hyd i ffordd i'n cadw ni'n ufudd iddo.

Gruffudd: Mae'n well colli rhywfaint o ryddid na'r cyfan ohono. Os priodi di'n ddoeth, cawn o leiaf gyfle i ymladd yn ôl. Siawns na fyddi mor rymus yn dy deulu newydd ag ydwyt yma, a rhwng y tri ohonom, y fi, y ti, a'th briod, bydd Henri'n difaru'r dydd y gofynnodd i ni ymrestru yn ei luoedd.

Gwenllian: Dw i'n dechrau deall cymaint yr ydych chi'n ei ofni.

Gruffudd: Ofni Henri? Oes, fy mhlentyn, mae arna' i ofn Henri. Ef yw'r brenin mwyaf pwerus yn Ewrop. A ffŵl yw'r dyn nad yw'n ei ofni.

Edrycha Gwenllian yn siomedig ar Gruffudd.

Gruffudd: Felly fy mhlentyn, erfyniaf arnat fel tad, fel teyrn hefyd, a wnei di fy helpu? A wnei di adael i'th filwr o dad fod yn drefnydd priodas, er mwyn y deyrnas, er mwyn i'n gwlad ffynnu a goroesi i genedlaethau'r dyfodol. A wnei di dy ddyletswydd fy merch, dros y wlad hon?

Cerdda Gwenllian at yr arthes frown ar y llawr ac oedi am funud.

Gwenllian: Mi briodaf. Gwnaf. Act gyntaf ein rhyfel yn erbyn Henri.

Gruffudd: Diolch Gwenllian. Mam pob doethineb.

Dyma Gwenllian yn torri ar ei draws.

Gwenllian: Ond mi briodaf fy newis, fy nhad. Mi briodaf, gwnaf, i gryfhau ein gwlad, ond mi briodaf fy newis, ac mi ddewisaf yn ddoeth, â'm calon lawn cymaint â'm pen, fel 'mod i ar faes y gad yn gwybod bod fy mywyd yn werth ei fyw, a finnau'n dyheu am gael bod ym mreichiau fy ngŵr.

Chwardd Gruffudd ar ei thraws.

Gruffudd: A finnau'n meddwl fy mod i wedi ennill dy feddwl!

Saib

Gruffudd: Dwed. Pwy yw dy ddewis di Gwenllian?

Edrycha Gwenllian arno mewn cywilydd herfeiddiol, cyn parhau.

Gwenllian: Mae 'na ddyn sy'n fy ngharu i ac eisoes wedi cyfaddef ei gariad. Mi rydw i hefyd yn ei garu ef. Ei garu cymaint fel y mae bod hebddo'n artaith. Ei garu cymaint fel na allaf fyth fod yn eiddo i neb arall, na neb arall yn eiddo i mi.

Gruffudd: Dw i'n gofyn am yr eildro. Pwy yw dy ddewis di?!
(*gan weiddi yn lle chwerthin nawr*)

Gwenllian fel pe bai ar goll yn ei meddwl ei hun.

Gwenllian: Mae'n ddewr ac yn ffyrnig o hardd. Mae ei amser yn alltud wedi ei wneud yn gryf ac mae bellach yn ddyn. Yn ddyn rwyf i'n ei garu'n annwyl, Tywysog Deheubarth.

Dyma olwg o ddisgwyliad ond siomedig ar wyneb Gruffudd.

Gruffudd: Amhosib! Ni all hyn ddigwydd. Ffwlbri, ac rwyf fi'n ei wahardd!

Gwenllian: Y person rwyf am ei briodi yw Gruffudd ap Rhys, Tywysog Deheubarth.

Gruffudd: Dallineb cariad. Afreswm serch yw hyn Gwenllian. Dwyt ti ddim yn dy iawn bwyll.

Dyma Gruffudd a'i wyneb yn ei law.

Gruffudd: Rwyt ti'n dal yn blentyn, ac yn fwy o ffwl nag a feddyliais. Gallwn ddeall i raddau d'awydd i ymladd yn erbyn Henri, ond ochri gyda'i elyn? Gwallgofrwydd pur. A wyt ti wedi meddwl am eiliad sut y bydd hyn yn effeithio ar y deyrnas?

Gwenllian: Ydw, bid siŵr. Dyma ein cyfle gorau. Mae Gruffudd ap Rhys yn barod i ymladd yn erbyn Henri, finnau hefyd, ond wn i ddim am fy nhad.

Dyma Gruffudd a'i ddwylo ar ei wyneb.

Gruffudd: Na! Gwallgofrwydd! Gwrthodaf fod yn rhan ohono, ac ni chei di chwaith! Gallai hyn fod yn drychinebus a gallai dministrio'r deyrnas.

Dyma sylw Gwenllian i gyd yn dychwelyd at ei thad gan fod y ddau ohonyn nhw fel petaent yn ymrafael benben â'i gilydd unwaith eto.

Gwenllian: Oni wyddoch, fy nhad... onid yw wedi bod yn ddigon amlwg i'ch llygaid, nad wyf yn dywysoges draddodiadol? Beth sy'n gwneud i chi feddwl y gallwch chi fy rhwystro rhag dilyn fy nghalon?

Trawa Gruffudd ei gist â'i ddwrn ac yna saif wrth ddal ei ddwrn mewn poen.

Gruffudd: Bywyd ar ffo. Dyna sy'n dy aros. Ai dyna'r math o fywyd yr wyt ti am ei fyw? Bywyd y ffoadur esgymun? Ac yn enw beth? Chwant?

Gwenllian: A Dwynwen yn dyst, nid chwant yw hyn, fy nhad. Rwy'n caru'r dyn, fel y mae ef yn fy ngharu i, a'r unig ddarn o hapusrwydd sydd ar goll yw derbyn eich bendith cyn i mi adael.

Gruffudd: Gadael? Am beth 'rwyf ti'n sôn Gwenllian?

Gwenllian: Rwyf fi'n gadael i ymuno â Gruffudd ap Rhys heno.

Gruffudd: A pha bryd y penderfynaist ti hyn Gwenllian?

Gwenllian: Rwyf wedi bod yn cynllunio ers misoedd. Mam doethineb. A heno, fe'ch gadawaf chi a'm mam i ymuno â Gruffudd ap Rhys, fy narpar ŵr.

Gruffudd: A beth am dy fam? Beth 'ddywed hi pan glyw hi am hyn? A'r cyngor? A'r llys? A'r bobl?

Gwenllian: Gŵyr fy mam yn barod. Rhoes i mi ei bendith, fel bendithion fy mrodyr a'm chwiorydd... Dim ond y chi sy'n weddill, fy nhad. Eich sêl bendith chi. Nid oes mo'i angen arnaf, ond hoffwn adael yma heno yn gwybod bod fy nhad yn iach ac yn fy nghefnogi.

Dyma Gruffudd yn meddwl yn ddwfn, yn ocheneidio ac yn taro ei law ar ei gist wrth i Gwenllian edrych arno yn ddwfn a'i llygaid yn fawr agored.

Gruffudd: 'Chewch chi fyth mo 'mendith. Nid dim ond dy dad di ydw i.

Gwenllian: Ond fy nhad...

Gruffudd: Bydd y golled i'r deyrnas hon yn enbyd. Bydd eich ymadawiad yn gwagio ein calonnau, hyd yn oed fy nghalon i.

Gwenllian: Ymunwch â ni, fy nhad. Dinistriwn ni fyddin Henri gyda'n gilydd.

Gruffudd: Fel erioed, yn wyllt ac yn ffyrnig ac yn hardd, a'm calon yn llawn ofn wrth edrych arnoch.

Dyma Gruffudd yn edrych ar ei ddwrn.

Gruffudd: Na, 'chewch chi ddim mo 'mendith. Dim ond fy mhryder a'm ffarwel. Fynnaf fi ddim mo'ch rhwystro chi, Gwenllian.

Gwenllian: Pa raid tristáu? Cewch weld fy mod i'n iawn, ein bod ni'n iawn.

Gruffudd: Dos 'nawr, cyn i mi newid fy meddwl a'th neilltuo i'th ystafell.

Dyma Gwenllian yn cychwyn at y drws cyn iddi gael ei hatal gan lais ei thad.

Gruffudd: Cofiwch Gwenllian, y bydd yn rhaid i fy hysbysu Henri o'ch ymadawiad. Fedrwn ni ddim mwy esgus ein bod ni ein dau yn deulu. Ar faes y gad, bydd eich gŵr yn elyn i mi. Rwyf fi hefyd yn gadael heno am Lundain, yng nghwmni'r cenhadon a ddaeth yma i gwrdd â'r brenin ei hun. Felly, ewch nawr Gwenllian, gan wybod bod eich tad yn eich caru'n annwyl, ond na all ef ddim mo'ch gweld chi ddim mwy, dim mwy na'i elyn ei hun.

Dyma Gwenllian yn cychwyn am y drws unwaith eto ac yn parhau trwyddo. Cama Gwenllian i lawr y grisiau, yn nes at y drws, ac yna ar hyd y lanfa fechan i ddringo ar gwch bach.

Act 2 - 1127

Mae'n dywyll tu allan. Ystafell fwyta mewn bwthyn bach yng nghanol coedwig Normanaidd. Lle tân yng nghanol yr ystafell wedi'i gynhesu, cadair bren frown ar un ochr a basged o bren yr ochr arall. Ychydig i'r chwith o'r faged a thua chefn y llwyfan, mae hen silffoedd sydd wedi heneiddio, ac ar ei silffoedd, potiau coginio a hen offer golchi. Gwelir hen ford bren ar ochr dde'r ystafell gyda lliain ford wen arno ac ar y chwith gwelir drws pren brown gyda handlen drws du.

Clywir sŵn y tân yn clecian a dyma Gwenllian yn gwisgo hen ffrog werdd, yn eistedd ar gadair bren syml yn troi'r cinio mewn pot mawr du sy'n hongian dros y tân. Gwelir bachgen ifanc, Morgan, yn chwarae ar y llawr o flaen Gwenllian gyda theganau pren sy'n edrych fel marchogion a cheffylau.

Dyma'r drws pren yn agor a gwelir dyn ifanc yn camu trwyddo, Gruffudd ap Rhys, dyn cyhyrog, mawr yn gwisgo hen diwnig werdd gydag ychydig o dyllau ynddo sy'n edrych fel olion llafn. Gwelir ei fod wedi ei glwyfo ond nid yw'r clwyfau'n ffres.

Gwenllian: A ddaethost ti o hyd iddo, fy nghariad?

Gruffudd ap Rhys: Naddo! Pedair blynedd ac mae'n dal i demtio tynged a gwrthod derbyn y rheolau. Fe'i cosbir, a chosb lawn poen fydd honno o law ein gelyn. Dylai wybod yn well erbyn hyn, i ddod yn ôl atom cyn i'r haul bylu tua'r gorllewin.

Gwenllian: Chwe blynedd fy nghariad.

Gruffudd ap Rhys: Beth?

Gwenllian: Buon ni yma ers chwe haf. Mil cant ac un mlynedd ar hugain – y flwyddyn y penderfynaist ei bod yn well camu o'r neilltu a gadael i Henri gymryd Powys. Chwe blynedd yn edrych ar yr un waliau a'r un pot o fwyd, a'r un goedwig.

Gruffudd ap Rhys: Beth yn y byd sydd yn dy feddwl, dwed? Onid wyt wedi bod yn gwrando arnaf?

Gwenllian: Wrth gwrs, fy nghariad, efallai iddo fentro y tu hwnt i'r goedwig.

Gruffudd ap Rhys: Nawr pam y byddai'n gwneud hynny, ac yntau'n gwybod y caiff ei ddiennyddio am adael gwlad ein meistr.

Gwenllian: Efallai fod ei fryd ar hapchwarae, a'i fod yn teimlo ei bod yn werth y fenter.

Gruffudd ap Rhys: Sut y gelli di ddweud y fath beth? Bywyd ein plentyn – dyna be rydym ni'n ei drafod. Mae'n ddiogel yma. Rydym ni wedi cael cyfle arall i fyw.

Gwenllian: Ofnadwy. Fe fyddai ei farwolaeth yn ofnadwy, ond o leiaf, byddwn i'n gwybod iddo geisio profi ei ryddid. Chwe blynedd yn astudio'r mapiau dirgel ar y wal, yn aros am ei dro. Chwe blynedd yn gaeth dan ddewisiadau ei dad.

Dyma eiliad o dawelwch cyn i Gruffudd ap Rhys siarad.

Gruffudd ap Rhys: Pe gaet ti dy ffordd, Gwenllian, a fyddai ef yn fyw yn awr? A ninnau, byddem yn dioddef yr un dynged. Rwyf eisoes wedi egluro hyn i ti ganwaith, ond fe ymddengys fod yn rhaid imi barhau i bledio fy achos, i deilyngu dy faddeuant. Ein sefyllfa ni yw'r lleiaf o ddau ddrwg. Pe na baem ni wedi aros yn ddiuedd, ac ymatal rhag ochri â'r Cymry na Henri a'r Normaniaid, yna byddai Henri wedi ein crogi ni. Gwnaethpwyd yr hyn a wnaethpwyd er lles ein gwrthryfel, ond yn bwysicaf oll, er lles ein bechgyn.

Gwenllian: O ddifri? Ai dyma'r dewis gorau iddyn nhw? Fe allet ti fod wedi claddu dy ego am un funud, anghofio am feibion Powys a'u hymgais ar dy fywyd, a gallem fod wedi ymladd â nhw i sicrhau rhyddid. Gallem fod wedi ymuno â'n cyd-wladwyr a lladd Henri, ond na, roedd yn rhaid i ti gollu'r cyfle ac achub ein bywydau, i ni gael byw fel hyn yn daeogion mewn bwthyn.

Edrycha Gruffudd ap Rhys ar Gwenllian, gydag wyneb rhwystredig cyn iddo droi i edrych ar Morgan.

Gruffudd ap Rhys: Ble mae dy frawd di Morgan!?

Cyn i Morgan droi ac ymateb i'w dad dyma Gwenllian yn torri ar ei draws.

Gwenllian: Chwarae yn y goedwig roedden nhw Gruffudd, chwarae mig, os yw fy nghof yn iawn (*gan edrych ar Morgan yn edrych am ryw fath o gytundeb*)

Edrycha Gruffudd ap Rhys ar Gwenllian a'i ddwylo ar ei gliniau, dim ond i droi ei sylw unwaith eto at Morgan.

Gruffudd ap Rhys: Cer i'th wely Morgan. Mae'n rhaid i'th rieni siarad.

Dyma Morgan yn gadael y llwyfan ac yn dychwelyd i'r ochr dde.

Gruffudd ap Rhys: Os rhaid inni wneud hyn eto Gwenllian?

Gwenllian: Gwneud beth fy nghariad?

Gruffudd ap Rhys: Paid â chellwair, Gwenllian. Nid un da wyt ti am gellwair.

Gwenllian: Mae popeth eisoes wedi ei ddweud, fy nghariad. Does dim rhaid inni ymddiddan heno.

Gruffudd ap Rhys: Go brin! Ni fyddet ti'n ymddwyn fel hyn pe bai hynny'n wir!

Parha Gwenllian i goginio dros y tân, heb roi ateb i Gruffudd ap Rhys.

Gruffudd ap Rhys: Roedd hi'n anochel y byddet yn gorfod dioddef digofaint Henri pan adewaist gysur teyrnas dy dad. Roeddet yn ymwybodol o hynny. Mi wnes i hynny'n glir i ti, felly pam gwarafun dy benyd imi nawr?

Try Gwenllian y bwyd yn gyflymach, mewn ffordd rwystredig.

Gwenllian: Gadewais fy nhad er mwyn ymladd yn erbyn Henri ac ymladd am fy rhyddid. Gadewais bopeth er dy fwyn di Gruffudd, er mwyn ein dyfodol, nid eistedd wrth gawg a'i droelli nes fy mod yn agos at fod yn ddall fel fy nhad.

Gruffudd ap Rhys: Rwyd ti'n llawn uchelgais, Gwenllian, ond 'fyddwn ni ddim yma am byth. Bydd Henri yn rhoi i ni ein rhyddid yn y pen draw. Bu'n rhaid i ni fforffedu Powys, ac ymneilltuo. Rhoddodd gyfran o'n bywyd yn ôl i ni. Cyfaddefaf nad yw'r penderfyniad yn un perffaith, ond mae'n well na phydru yn y ddaear heb yr un marc yn nodi pwy oeddet ti.

Cyfyd Gwenllian o'i chadair ac edrych ar Gruffudd ap Rhys.

Gwenllian: Drama, aie? Chwe blynedd mewn carchar cysurus? A phaham Gruffudd, gan na fynnet ti ymladd gyda Maredudd ap Bleddyn a'i frodyr yn erbyn Henri.

Gruffudd ap Rhys: Ymladd â Maredudd? Y bleiddiaid? Na, ymladdaf fi byth yn eu lluoedd nhw, ac ni fyddaf yn maddau iddynt chwaith fel y gallant edifarhau am eu pechodau. O'm rhan i gânt farw'n dragwyddol yn uffern, pob un ohonynt. Ceisiasant fy lladd. Pam felly nad wyt tithau'n eu casáu? Onid wyt yn cydymdeimlo â mi, dy wr?

Gwenllian: Sut y rhydd San Pedr groeso i ti wrth y pyrth euraidd, dwed, os nad wyt ti'n fodlon i buro d'enaid a maddau?

Gruffudd ap Rhys: Pam na elli di faddau i mi, dy wr, dwed?

Saib

Gruffudd ap Rhys: Pe wynebwn yr un dewis eto, mi wnawn yr un peth. Ni faddeuaf iddynt yn y bywyd hwn. Gwnaf hynny yn y nesaf, pan ddaw fy mywyd i ben a phan fydd yn rhaid i mi fod yn bur.

Gwenllian: Mi roddais fy mywyd i ti, gorff, meddwl ac enaid, a dyma fi yn y purdan taeog hwn! Rhoi'r gorau i'r gorau o bopeth a gefais yn nheyrnas fy nhad.

Eistedda Gwenllian wrth ei chawg eto.

Gruffudd ap Rhys: Gwn i mi addo bywyd gwahanol i ti, ond mae'n rhaid i ni dderbyn ein tynged dros dro. Deallaf i ti aberthu llawer, dy foeth, dy freuddwydion, ond oni wneuthum innau? Nid dy ryddid di'n unig sy'n troi yn y cawl hwnnw. Cadwa hynny mewn cof. Heblaw hynny, y gwir yw hyn. Os gadawn ni'r tyddyn hwn heb i air Henri agor y drws, bydd ei ddynion yn ein lladd cyn gynted ag y cerddwn y tu hwnt i'r drws.

Gwenllian: Byddai'n well gen i farw yn dianc o'r carchar nag aros yma i bydru fel fy nhad yn ei ystafell wely.

Gruffudd ap Rhys: Go brin dy fod di o ddifri! Dy fod di mor hunanol!

Gwenllian: Os hunanol yw chwennyech byw heb gadwyni, yna, ar bob cyfri', galwa fi'n hunanol.

Gruffudd ap Rhys: Rwyf ti'n fwy dall na'th dad Gwenllian. Mae gennyf ddau fachgen sydd d'angen di a gwell gennyf yw mentro dy fywyd na gofalu amdanynt.

Gwenllian: Fel fy nhad? Fi? Fi? Ti, os oes un ohonom, sydd fel fy nhad. Fe fûm i yma o'r blaen, yn gwrando ar ddyn yn doethinebu'r dyfodol. Rwyf ti'n siarad yn union fel yr oedd ef y noson y gadewais ef, llwfrgi go iawn. Llwfrgi o dan fys Henri, yn union fel fy nhad.

Gruffudd ap Rhys: Sut y meiddi di siarad â mi fel hyn? Rwyf wedi gwneud cymaint i geisio dy blesio di, ond nid yw byth yn ddigon.

Saib

Gruffudd ap Rhys: Rwyf wedi ymladd llawer o frwydrau drosot, ac wedi lladd cymaint o ddynion.

Gwenllian: Wyt ti'n anghofio pwy oedd wrth dy ochr, fy nghariad, yn ymladd gyda thi?

Gruffudd ap Rhys: Nac wyf, gwaetha'r modd. Rwy'n cofio pob brwydr, ac ym mhob un ohonynt, roeddwn yn ofni am dy fywyd, gan obeithio'r tro nesaf yr arhoset gartref.

Gwenllian: A gwneud beth!? Dwyn i gof hen gerddi am wŷr yn rhyfela?! Golchi'r cawg hwn, a'i roi i gadw?

Gruffudd ap Rhys: Beth am fagu ein dau lanc? Neu ai tasg ddi-nod yw honno yn dy olwg di?

Gwenllian: Paid di â chwestiynu fy nghariad tuag at fy mhlant! Rwy'n gofalu amdanynt. Nid oes angen eu meithrin ddydd a nos, iddynt droi'n llwfrgwn yn union fel eu tad.

Gruffudd ap Rhys: Pe gaet dy ffordd, byddet wedi ymladd wrth fy ochr yn y cyrch ar Gaerfyrddin, er gwaetha'r ffaith fod gennynt blentyn yn dy groth.

Gwenllian: Mae'r diwrnod hwnnw'n dal yn fy siomi. Clywais ei bod yn frwydr ddiflino, un y byddwn i wedi hoffi bod yn rhan ohoni.

Saib

Gruffudd ap Rhys: Roedd gennynt blentyn yn dy groth! Roedd hi'n ddigon o ryfeddod dy weld yn y cyrch ar Gydweli. Prin y gallet eistedd ar y march, heb sôn am ymladd, ond dyna lle'r oeddit ti, Gwenllian, yn dal ar flaen y gad.

Saib

Gwenllian: A beth am Aberystwyth? Brwydr arall lle y mynnodd fy ngŵr ffrwyno f'ymwneud â hi.

Cama Gruffudd ap Rhys at y ford lle mae ei diwnig newydd yn aros amdano. Tyn ei diwnig bant a datgelir ei glwyfau artaith.

Gwenllian: Edrych ar dy gefn Gruffudd. Mae'r gwarchodwyr wedi gadael eu marc. Dy adael di'n fwy o greithiau nag o groen ar dy gefn. A pham? Am i ti feiddio aros allan wrth i'r haul fachlud.

Gruffudd ap Rhys: Rwyf wedi dioddef gwaeth. (*yn ddi-flewyn-ar-dafod*)

Gwenllian: Ond pa bryd y mae digon yn ddigon?

Gruffudd ap Rhys: Digon yn ddigon? Nid dyna'r hyn a ddywedaist ar ôl Aberystwyth, a dyna'r artaith waethaf i mi ei dioddef erioed.

Gwenllian: Ymddiheuraf fy nghariad. Ni ddylwn i fod wedi siarad mor feiddgar y diwrnod hwnnw.

Gruffudd ap Rhys: Aberystwyth. Cawsom ein dal yn ddirybudd, a'n gelynyon yn cuddio yn y coed ... Collais gannoedd y diwrnod hwnnw, cannoedd a brawd. Ond ni ddywedaist erioed fod hynny'n ddigon. F'annog yn hytrach i barhau i ymladd.

Gwisg Gruffudd ap Rhys ei diwnig newydd.

Gruffudd ap Rhys: Rwyf ti'n hunanol Gwenllian. Rwyf ti'n chwennych antur yn ddi-baid, yn ysu amdano.

Saib

Gruffudd ap Rhys: Yn ymelwa ar y rhai rwyf ti'n eu helpu neu sy'n dy helpu di, hyd yn oed y rhai sy'n agos atat.

Gwenllian: (*yn hunan meddiannol*) Pob rhyfel rydw i wedi ei ymladd, pob dyn rydw i wedi ei ladd, rhyddid fy ngwlad oedd yn fy meddwl! Yr unig wahaniaeth rhyngom yw fy mod i'n wraig, gwraig a gwraich yn dy olwg di, am fy mod i hefyd yn rhyfelwr.

Saib

Gruffudd ap Rhys: Pam y cydiaist ti yn y cledd yn y lle cyntaf? Go brin mai dyna'r drefn yn llys dy dad?

Gwenllian: Rhyddid fy ngwlad!

Gruffudd ap Rhys: Yn chwe blwydd oed!

Gwenllian: Pam na all hynny fod? Beth wyt ti am ei glywed Gruffudd? Fod ynof ryw ysfa annaturiol i dynnu gwaed?

Saib

Gruffudd ap Rhys: Onid oes llygedyn o wirionedd yn hynny?

Gwenllian: Fe allwn i fod wedi bod y ferch ddi-gledd. Ces i ryddid gan fy nhad i ddysgu darllen a dysgu'r chwedlau fel fy mrodyr, ond fel fy mrodyr, mi ddysgais hefyd i drin cledd a bwa a saeth a tharian.

Saib

Gwenllian: Deuthum yr hyn yr oedd ei angen ar fy ngwlad.

Gruffudd ap Rhys: A thi yw'r un i siarad dros dy wlad?

Saib

Gwenllian: Sut y gelli di ddweud hyn? Rwyf wedi cyflawni cymaint. Cymaint.

Gruffudd ap Rhys: Nid wyf yn gwadu hynny. Ond a ystyriaist erioed mai ti sydd wedi porthi'r rhyfel hwn a chaniatáu i Henri gynnal ei deyrnasiad?

Saib

Gwenllian: Fel y dywedaist ti, o wynebu'r un dewisiadau eto, mi wnawn i yn union yr un peth.

Gruffudd ap Rhys: Dw i'n dechrau amau y dylwn fod wedi dewis yn wahanol.

Gwenllian: Ac a gredi di mai ti'n unig sy'n edifar?

Erbyn diwedd y sgwrs, mae'r ddau wyneb i wyneb. Dyma Gruffudd ap Rhys ar fin agor ei geg wrth i gnoc ar y drws darfu ar ei draws.

Agora Gruffudd ap Rhys y drws. Mae'n cael ei gyfarch wrth y drws gan warchodwr Normanaidd yn ei arfwisg gadwyn. Yn llaw dde'r milwr gwelwn blentyn bach yn cael ei ddal wrth ei diwnig, Maelgwen.

Gwarchodwr: Nid yw eich mab yn ufuddhau i'n rheolau. Mi gafodd gernod gen i, ac mi ddylwn ei gosbi'n waeth. Cymerwch ef cyn i mi newid fy meddwl!

Tafla'r Gwarchodwr Maelgwen at ei dad.

Gruffudd ap Rhys: Cer at dy fam, Maelgwen. Mi wela'i di nes ymlaen.

Cerdd Maelgwen tuag at ei fam a rhoi cwtsh iddi am eiliad hir.

Gwenllian: Cer i weld dy frawd Maelgwen. (*gan ddal i gwtsho*)

Cerdd Maelgwen i ochr dde'r llwyfan a gadael.

Gruffudd ap Rhys: Ymddiheuriadau, ni fydd hyn yn digwydd eto. Mi wnaaf yn siŵr ...

Dyma Gwenllian yn torri ar ei draws.

Gwenllian: Llwfri!!!

Try Gruffudd ap Rhys i wynebu Gwenllian, ond cyfeirio ei geiriau at y gwarchodwr y mae hi.

Gwenllian: Rhoist gernod i'm plentyn, beth am fy nharo i!?

Cerdd Gwenllian tuag at y drws a dyma Gruffudd ap Rhys yn cwrdd â hi, ac yn ei hatal rhag bwrw'r gwarchodwr.

Gruffudd ap Rhys: Paid Gwenllian, nid yw'n werth y gosb!

Chwardd y Gwarchodwr yn goeglyd.

Gwarchodwr: Ni fyddwn i byth yn 'styried gwneud, fy nhywysoges.

Gwenllian: Llwfri! (*yn dal yn cael ei hatal gan Gruffudd ap Rhys*)

Gwarchodwr: Ac mae arna' i ofn na chaf fi byth mo'r cyfle.

Rhydd Gwenllian y gorau i wthio yn erbyn Gruffudd ap Rhys.

Gwenllian: Am beth rwyt ti'n siarad?

Try Gruffudd ap Rhys at y Gwarchodwr.

Gruffudd ap Rhys: Dywedwch eich meddwl!

Cama'r Gwarchodwr trwy'r drws.

Gwarchodwr: Prin yw eich awdurdod chi yma Gruffudd ap Rhys. Rydych chi'n garcharor a gallai pethau waethygu'n gyflym ped anfonid llythyr syml at Henri!

Gruffudd ap Rhys: Ymddiheuriadau. Ond da chi, beth sy'n eich meddwl? Buoch yn ddigon trugarog wrth fy mab.

Gwarchodwr: Fe'ch difyrraf â stori a glywais, un y bydd yn cyrraedd Henri ymhen ychydig ddyddiau ac a fydd yn dod â chi i ddiwedd eich taith chi yma ym myd y byw.

Saib

Gwarchodwr: Ymhen ychydig ddyddiau, daw Henri i wybod am eich cynllun i gychwyn gwrthryfel bradwrus yn ei erbyn.

Gruffudd ap Rhys: Ni all hyn fod yn wir. Nid yw hyn yn wir.

Gwarchodwr: Bid a fo am hynny. Ond daw Henri i wybod am y cynllwyn, i wybod eich bod chi a Gwenllian yn cynllwynio yn ei erbyn unwaith eto, ac ni fydd yn hir wedyn cyn rhoi taw ar y gwrthryfelwyr yn ei ffordd ddihafal ei hun.

Gwenllian: Celwydd! Ti sydd wedi gwneud hyn! Rwyd ti'n ceisio cael gwared â ni, ond yn rhy lwfr i wneud hynny dy hun!

Gruffudd ap Rhys: Ai gwir hynny? Wyt ti'n rhy ofnus i faeddu dy ddwylo?

Gwarchodwr: Nid y fi, ond efe. Efe sy'n rhifo dyddiau pob un ohonom. Da chi, treuliwch nhw fel sy'n rhaid. Edifarhewch am eich pechodau, oherwydd mae eich awr gerllaw.

Cama'r Gwarchodwr o'r drws ac o'r llwyfan i'r chwith.

Dyma eiliad o dawelwch ar y llwyfan cyn i'r ddau barhau i siarad. Cerdd Gwenllian at y gadair ac eistedda, a cherdd Gruffudd ap Rhys at y ford a phwyso arno â'i ddwy law.

Gwenllian: Mae'n rhaid inni ddianc fy nghariad.

Dyma eiliad o dawelwch eto cyn i Gruffudd ap Rhys daro'r ford â'i ddwrn.

Gruffudd ap Rhys: I uffern ag ef! Wyt ti'n hapus yn awr Gwenllian! A yw hyn yn dy fodloni di? Mae'n rhaid i ni ymladd yn erbyn Henri yn awr!

Gwenllian: Oes fy nghariad, oes, ond nid yn llwyr.

Saif Gwenllian.

Gwenllian: Caf godi cledd unwaith eto, a chaf fi gyfle i ymladd yn erbyn Henri, ond, rydw i'n teimlo y dylen ni ddelio â'r rhai sydd wedi ein cyhuddo a'n rhoi yn y sefyllfa newydd hon yn gyntaf.

Saib

Gwenllian: Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid i ni ffoi i ardal newydd. Nid yw'n ddiogel mwyach fan hyn oherwydd y rhai sy'n gwybod am ein lleoliad. O'r fan newydd honno, efallai y deliwn â'r cyhuddwyr hyn ac adeiladu cartref newydd.

Gruffudd ap Rhys: Ond nid oes gennym y lluoedd i ymladd Gwenllian. Nid oes...

Gwenllian: Fe ddaw'r lluoedd, Gruffudd. Byddan nhw am ymladd dros ein hachos.

Saib

Gruffudd ap Rhys: Ond efallai, os arhoswn yma, efallai y bydd Henri yn ein credu ac yn ein derbyn ein gair ni, ac yn gweld na wnaethom ni ddim byd o'i le.

Gwenllian: Wyt ti am gymryd y siawns honno Gruffudd? A wyt yn dymuno hapchwarae â bywydau ein plant? Roeddwn i'n meddwl bod dy holl ddewisiadau er lles ein plant?

Saib

Gwenllian: Os gadawn ni heddiw, mi addawaf i ti, nid ymladdaf fi byth eto ac mi dreuliaf weddill fy nyddiau yng nghwmni'r bechgyn ac fe'u hyfforddaf fel y cefais i fy hyfforddi i sicrhau na fydd yn rhaid iddynt ddioddef yr un artaith byth fel hwn eto.

Cerdd Gwenllian tuag at Gruffudd ap Rhys.

Gwenllian: Os gadawn ni heddiw, bydd ein teulu yn blasu rhyddid, ac yn medru cysgu'r nos a dychmygu'r dyfodol. Pwy a wŷyr, os cawn fyw felly, na chawn ni ragor o blant?

Saib

Gwenllian: Felly beth wyt ti'n dymuno ei wneud fy nghariad?

Cwyd Gwenllian ên Gruffudd ap Rhys â'i llaw, ond mae ef yn ei gwthio i ffwrdd ac yn sefyll yn gefnysyth wrth droi tuag Gwenllian a thuag at ei blant.

Gruffudd ap Rhys: Iawn... gadawn.

Gwenllian: Dewis doeth fy nghariad. Fe wna' i rybuddio'r plant.

Gruffudd ap Rhys: Ond dwed, Gwenllian, a wyf fi am gredu d'addewidion? Os gwnei di fel y dywedi, a pheidio ag ymladd, fi yw'r ffŵl rwyt ti'n datgan fy mod i. Mae dy gael ar faes y gad yn hanfodol i'n gwrthryfel. Rwyt ti wedi ennill enw da i ti dy hun, wedi creu chwedl o'th fywyd, ac mae'n rhaid cadw a chynnal hynny Gwenllian.

Gwenllian: Ond fy nghariad, dw i'n addo na fyddaf fi bellach yn rhan o'r rhyfel hwn, nac unrhyw ryfel o ran hynny. Rhof i ti fy ngair.

Gruffudd ap Rhys: Gair trwm yw addo, yn enwedig pan wn i nad yw dy air di yn destament. Er nad wyf bob amser yn barod i gydnabod hyn, ar faes y gad y mae dy le di. Yno y gorwedd dy galon, nid gyda fi na'th blant nac â llwy yn troelli'r cawl, ond â chleddyf yn dy law, yn tyllu calonnau dy elynion.

Gwenllian: Fy nghariad, taw. Y plant piau fy nghalon, nid yr ymladd, ti a'r plant.

Gruffudd ap Rhys: Wn i ddim. Wn i ddim. Oerodd calon y ddau ohonom... Addawaf hyn i ti Gwenllian – pan adawn heno, bydd fy nghariad tuag atat yn aros yma yn y bwthyn hwn, ond er mwyn ein plant a'r gwrthryfel awn oddi yma fel un, a byw celwydd. Efallai i ni fod yn byw celwydd ers blynyddoedd.

Gwenllian: Mae hyn yn ffwlbri. Gad inni siarad am hyn rywdro arall.

Gruffudd ap Rhys: Na Gwenllian! Pan adawn ni'r lle hwn, mae'n rhaid i ti ddeall y goblygiadau ac na allwn ni ddod eto nôl i fan hyn nac at ein gilydd.

Gwenllian: Bydd y plant yn gwybod y gwir ryw ddydd fy nghariad. Sut fyddan nhw'n ymateb o wybod mai celwydd oedd eu magwraeth?

Gruffudd ap Rhys: Bydd y plant yn iawn. Byddant yn dod i adnabod eu mam am yr hyn ydyw, ac yn anochel, yn dysgu nad i ofalu amdanynt y ganwyd hi... Os cawn ni blentyn arall, fel yr awgrymi di, ffrwyth ein twyll fydd ef. Dyna fy addewid i ti Gwenllian.

Gwenllian: Sut y gelli di ddweud y fath beth? Mae fy nghalon yn dal i ddyheu amdanat. Paid â'i thorri, Gruffudd.

Gruffudd ap Rhys: Rhyfedd nad wyf wedi ei thorri eisoes. Fe dorraist fy nghalon i dro yn ôl. Weithiau, dw i'n amau a wyt ti erioed wedi fy ngharu i, Gwenllian. Cyfle oeddwn i, cyfle iti adael dy dad ac ymladd yn erbyn Henri. Dyna'r gwir, onid e?

Saib. Y ddau yn edrych ym myw llygaid ei gilydd.

Gruffudd ap Rhys: Felly, ymlaen â ni. Mae 'na ryfel yn disgwyl amdanom. Gad inni adael gyda'n gilydd, ar wahân.

Gad Gruffudd y llwyfan, gan adael Gwenllian yno. Cerdda tua at y gegin, ac o blith geriach y gegin ar y silffoedd, gafaela yn ei chleddyf a'i godi fry.

Llenni yn cau.

Beth yw Prif Elfennau Drama Lwyddiannus?

Yn y traethawd hwn edrychaf ar brif elfennau drama lwyddiannus gan gyfeirio at waith arbenigwyr yn y maes, er enghraifft, Emyr Edwards a'i lyfr, *Sut i Greu Drama Fer?* a David Edgar, a'i lyfr *How Plays Work*, llyfrau sy'n trafod crefft y ddrama mewn modd ymarferol ond mewn modd digon ysgolheigaidd hefyd. Gan gyfeirio at waith yr arbenigwyr hyn ac eraill, a chan dynnu ar fy mhrofiad fy hun o gelfyddyd drama, byddaf yn tynnu sylw at y prif elfennau a'r gofynion allweddol er mwyn creu drama lwyddiannus. Dyma'r elfennau yr oedd angen i mi eu hystyried wrth i mi greu fy nrama fy hun.

Diffinia'r Oxford English Dictionary y gair 'drama' yn nhermau '[a p] lay for acting on stage, radio, etc' (Thompson, 1995, t.313). Rhywbeth a berfformir gan actorion, felly yw drama. Er bod y diffiniad yn cynnig ateb syml a chlr i'r cwestiwn, 'Beth yw drama?' credaf fod tipyn mwy i'w ddweud eto ynghylch yr elfennau angenrheidiol ar gyfer creu drama lwyddiannus. Mewn modd tebyg, diffiniad Geiriadur Prifysgol Cymru ar gyfer y gair 'drama' yw 'Cyfansoddiad llenyddol mewn rhyddiaith neu farddoniaeth a luniwyd i'w chwarae ar lwyfan, a'r stori'n cael ei dadlennu a'i datblygu drwy gyfrwng ymddiddan a symudiadau'r cymeriadau' (Geiriadur Prifysgol Cymru, 2022).

Yn y Gymraeg a'r Saesneg, pan fo rhywun yn crybwyll y gair 'drama', efallai mai'r ddrama glasurol a ddaw i'r meddwl, drama sy'n delio ag eiliad drasig neu o bwys hanesyddol, fel y ddrama *Siwan* gan Saunders Lewis neu *Romeo and Juliet* gan Shakespeare, dwy ddrama amlwg ar faes llafur ysgolion. Ac eto, mae mwy nag un math o ddrama'n bod.

Er enghraifft, gall y gair 'drama' gyfeirio at y canlynol: meim, sgets, drama fer, drama hir, a gall pob un o'r rhain fod yn fonolog neu'n ddeialog. Pan gyfeiria Emyr Edwards at dair o'r elfennau hyn yn ei lyfr, *Sut i Greu Drama Fer?*, dywed yn glir nad ydynt yn hollol yr un peth, 'nad sgets mo'r ddrama fer ac mai creadur tra gwahanol eto yw'r ddrama hir' (Edwards, 2012, t.9). Gwelwn felly mor annigonol yw diffiniadau cryno'r geiriaduron.

Fodd bynnag, er y ceir gwahanol fathau o ddramâu, holir yma - a geir rheolau sy'n gyffredin yn y broses o greu drama? Mae'n bosib nad 'rheolau' yw'r gair mwyaf addas yn y cyswllt hwn. Mae David Edgar yn awgrymu nad rheolau ydynt ond cyfuniad o holl ddisgwyliadau'r holl ddramâu yr ydym erioed wedi dod ar eu traws (Edgar, 2012, t.7). Disgrifia David Edgar ddrama drwy gyfrwng trosiad yr wyneb dynol. Mae gan bob un ddrama'r un bensaerniaeth ddynol, greiddiol, ond maent yn amrywio ac yn wahanol i'w gilydd. Pe na bai'r bensaerniaeth ar waith i'w cefnogi, byddent yn bentyrrau na ellir gwahaniaethu rhyngddynt ar y llawr, ond gan eu bod yn rhannu nodweddion cyffredin, y mae modd i ni wahaniaethu rhyngddynt (Edgar, 2012, t.5).

Er nad yw'r un ddrama yn beth hollol unigryw, nid yw'n gywir dweud nad oes unigrywiaeth yn perthyn iddi. Ystyrier geiriau Saunders Lewis: 'Y perygl cyntaf yw inni feddwl mai peth peiriannol yw celfyddyd, peth y gellir ei ddysgu fel dysgu triciau siwglath. O goleddu syniad felly buan y darfyddai am ddrama..' (Hallam, 2013, t.16). Teg dweud bod yn rhaid i ddrama lwyddiannus gyrraedd safon ddisgwyliedig, a thrwy hyn mae'r gynulleidfa yn gweld tebygrwydd a gwahaniaeth rhwng gwahanol ddramâu o safon. Er bod pob drama'n wahanol, gellir sôn am egwyddorion neu elfennau nodweddiadol amlwg.

Dyna yw canolbwynt y traethawd hwn. Edrychir ar brif elfennau drama lwyddiannus.

Cymeriad neu Blot

Cyn i ni fentro i'r adran hon a ffurfio dadl rhwng cymeriad a phlot - pa un o'r ddwy elfen sydd bwysicaf? - mae'n briodol amlinellu bod gwahaniaeth mewn gwirionedd rhwng stori a phlot. Er bod y ddau yn rhannu elfennau tebyg, maent mewn gwirionedd yn wahanol.

Mae gan bob drama ei stori gefndir ei hun, rhywbeth sydd wedi arwain cymeriadau'r ddrama at foment gyntaf yr act gyntaf. Mae'r hanes hwn yn rhan o'r stori. Y plot sy'n trefnu sut yr adroddir y stori honno, sut y trefnir hi yn nhermau strwythur y ddrama. Fel y dywed Emyr Edwards yn ei lyfr, *Sut i greu Drama Fer?*. 'Mae yna wahaniaeth clir rhwng y plot a stori'r ddrama... Rhan o'r stori yw'r plot, felly, y rhan ddramatig y mae'r dramodydd am i'r gynulleidfa ei gweld ar lwyfan' (Edwards, 2012, t.42). Er enghraifft, ystyrier y ddrama *Siwan*. Y plot sy'n penderfynu pa gymeriadau sydd ar y llwyfan, yng nghwmni pa gymeriadau eraill y maent yn ymddangos ac am ba hyd. Is-gymeriad yw Alis o ran y stori, ond o ran y plot, mae'n chwarae rhan bwysig. Mae gan Alis sawl rôl o fewn y ddrama, megis bod yn gynghorydd i ddau o'r prif gymeriadau, Siwan a Llywelyn, a'u cymell i gymodi. Gwelir enghraifft o hyn yn act olaf y ddrama pan fo Llywelyn ac Alis yn trafod gallu Llywelyn i rannu ei deimladau â'i wraig, Siwan:

LLYWELYN: Onid dyn yw tywysog, ferch?
 ALIS: 'Dd'wedwch chi hynny wrth y dywysoges, syr?
 LLYWELYN: Ydy hi'n amau hynny?
 ALIS: Byddai'n help iddi gael clywed. (Lewis, 2002, t.71).

Dim ond un o rolau Alis yw bod yn gynghorydd. Gellir dadlau mai ei phrif rôl o fewn y ddrama hon yw helpu'r gynulleidfa i ddeall y ddrama a'i chymeriadau yn well. Hynny yw, mae'n chwarae rôl draddodiadol y Corws mewn drama glasurol, yn enwedig felly yn yr ail act, pan yw'n disgrifio'r olygfa grogi i Siwan a'r gynulleidfa. Yn wir, wrth iddo drafod y berthynas rhwng y rôl hon ac Alis, dywed Huw Richards: 'Dyma un o brif ddyletswyddau Alis yn y ddrama *Siwan*' (Richards, 2012, t.27).

Wedi inni wahaniaethu rhwng stori a phlot, trafodwn yn awr y berthynas rhwng plot a chymeriad.

Ni fyddai'n iawn drafod y mater hwn heb gyfeirio at un enw sydd yn dra adnabyddus ym maes egwyddorion drama, sef Aristoteles. Credai Aristoteles '[that] character is involved for the sake of action... The plot, then, is the first essential of tragedy, it's lifeblood, so to speak, and character takes the second place' (Aristoteles, 1965, p.40). Cefnogi'r gred hon yr oedd Saunders Lewis pan ddywedodd 'I think he (Aristoteles) was right and most percipient to put plot first... It is the exploration of the plot that contributes most to the shaping of the tragic hero...' (Lewis, 1958)

Un arall sy'n ategu'r farn hon yw David Edgar. Meddai: 'Aristotle is right that plot is "the first essential of tragedy", and character takes the second place' (Edgar, 2012, t.41). Drwy'r plot y cyflwynir digwydd. Yn wir, i raddau, y plot yw'r digwydd, a rhydd y plot ffocws ar y cymeriadau gan ganiatáu inni ddeall neu ddyfalu pam eu bod yn gweithredu fel y maent. Mae'r ddrama *Saer Doliau* gan Gwenlyn Parry yn enghreifftio'n berffaith pa mor bwysig yw plot i ddrama. Dechreuau'r ddrama wrth i Ifans, un o'r prif gymeriadau, gyfarch ei ddoliau yn ei weithdy: 'Bore da, blant. Sut noson gawsoch chi?...?' (Parry, 2001, t.61). Yn syth o'r llinell gyntaf hon, gallwn ddweud bod hanes (neu gyn-hanes) i'r ddrama hon: mae Ifans

wedi bod yma o'r blaen. Maes o law, datgelir pam ei fod yma: 'Ble mae'r goes arall 'na? (Chwilia o gwmpas y fainc) Petai dyn yn cael llonydd i wneud ei waith, fydda peth fel hyn ddim yn digwydd ...' (Parry, 2001, tt.62-63). Mae Ifans wedi cyrraedd ei weithdy i barhau i weithio ar ei ddoliau.

Ymhellach, ystyrier sut y mae'r ddrama *Saer Doliau* yn gorffen, 'Pan mae ar fin ei wthio i mewn, clywir y teleffon yn canu'n glir ac uchel... LLEN' (Parry, 2001, t.103). Erbyn diwedd y ddrama, mae Ifans wedi marw. Ffaith a gyhoeddir gan y ferch: 'Mae Eiffrain Cadwaldr Ifans wedi marw' (Parry, 2001, t.103), ac mae'r Llanc yn llusgo corff Ifans tuag at y seler. Sut y mae hyn yn arwyddocaol ac yn cefnogi safbwynt Aristoteles o ran pwysigrwydd plot? Trwy'r ddrama, mae'r Llanc yn hyderus nad oes 'Giaffar' yn bod, sef y person y mae Ifans yn siarad ag ef ar y ffôn: 'Helô, Giaffar... Giaffar, ydach chi yna?' (Parry, 2001, t.63). Mae'n hyderus gan na chred fod modd i'r ffôn ganu. Meddai: 'Cyn medrwyd chi gael teleffon i weithio, rhaid i chi gael weiran yn dŵad i'r lle. A does 'na 'run' (Parry, 2001, t.102). Felly does dim modd i Ifans siarad ag unrhyw un o gwbl. Holir ymhellach: 'Pa pryd ydach chi am sylweddoli nad oes 'na ddim Giaffar?' (Parry, 2001, t.102). Mae hyn yn gwneud i ni gredu mai bodoli ym mhen Ifans y mae'r Giaffar ac mai'r Llanc yw'r un call. Fodd bynnag, pan ddown at ddiwedd y ddrama, mae'r ffôn yn canu, er gwaetha'r ffaith na ddylai. Mae hyn yn dynodi mai'r plot sy'n rheoli yma, ac nid y cymeriadau na'u rhesymeg. Mae'r digwyddiad hwn mewn drama absŵrd yn drosiad o fath sy'n cyfleu sut y mae plot bob amser yn fwy na'r cymeriadau sy'n rhan ohono.

Noda David Edgar, fodd bynnag, nad pawb sy'n cytuno â safbwynt Aristoteles. 'There is, of course, a contrary view, starting from the premise that the mainspring of drama is not plot but character' (Edgar, 2012, t.41). Wedi'r cyfan, onid yw llwyddiant *Saer Doliau* yn ddibynnol ar gymeriad Ifans yn bennaf oll? Ymhellach, ystyrier drama Gymraeg mwy cyfoes a fu'n llwyddiant mawr yn ddiweddar, sef *Anfamol* gan Rhiannon Boyle, drama sy'n seiliedig ar fenyw o'r enw Ani yn ei phedwardegau. Onid dymuniad Ani i ddod yn fam sy'n gyrru'r ddrama un cymeriad hon yn ei blaen, ac yn ei thro, yn ei thywys i fanc sberm lle mae hi wedyn yn cyflawni'r awydd hwnnw (Morgan, 2021)? Onid ei gweld hi yn ei llawenydd a'i rhwystredigaeth yn siarad â ni'r gynulleidfa'n uniongyrchol, yn dadlennu i ni holl ffaeleddau a rhinweddau ei phersonoliaeth, ydyw prif apêl y ddrama?

Ystyrier sylw cofiadwy John Galsworthy: 'The dramatist who hangs his characters to his plot, instead of hanging the plot to his characters, is guilty of cardinal sin' (Galsworthy, 2001, t.48). Mae gan bob cymeriad ei stori ei hun sydd ar wahân i'r plot. Fel y dywed David Edgar: 'More strictly than the plays which contain them, characters have beginnings, middles and ends' (Edgar, 2012, t.44).

O ran y ddrama yr wyf wedi'i llunio, *Gwenllian*, roedd y stori eisoes wedi'i phennu gan hanes ei chymeriadau. Fodd bynnag, fy ngwaith i wedyn oedd llunio'r plot a phenderfynu sut y byddai'r cymeriadau'n ymateb o fewn y sefyllfaoedd yr oeddent wedi'u cynnwys ynddyn. Gan ddefnyddio'r hanes fel canllaw o ran pennu'r sefyllfaoedd posib i'r cymeriad, ceisiais lunio drama lle roedd gan bob un o'r cymeriadau eu stori a'u dewisiadau eu hunain, eu chwant hefyd.

Er enghraifft, ystyrier cymeriad Gruffudd ap Cynan, tad Gwenllian. Er nad yw'n dymuno cael ei reoli gan y brenin Henri na dilyn ei orchmynion, mae'r ffaith fod arno ofn Henri a'i fyddin yn ei rwystro rhag anufuddhau. Hyd yn oed pan mae ei ferch, Gwenllian, yn erfyn arno i ymladd yn erbyn Henri, mae'n gwrthod y syniad hwn, sy'n arwain at ei ferch yn gadael ei ochr i ymuno â'i chariad:

- ‘Gruffudd: Mae'n well colli rhywfaint o ryddid na'r cyfan ohono. Os priodi di'n ddoeth, cawn o leiaf gyfle i ymladd yn ôl. Siawns na fyddi mor rymus yn dy deulu newydd ag ydwyt yma, a rhwng y tri ohonom, y fi, y ti, a'th briod, bydd Henri'n difaru'r dydd y gofynnodd i ni ymrestru yn ei luoedd.
- Gwenllian: Dw i'n dechrau deall cymaint yr ydych chi'n ei ofni.
- Gruffudd: Ofni Henri? Oes, fy mhlentyn, mae arna' i ofn Henri. Ef yw'r brenin mwyaf pwerus yn Ewrop. A ffŵl yw'r dyn nad yw'n ei ofni.'

Er bod Galsworthy yn credu bod cymeriad yn bwysicach na phlot, mae hefyd yn credu bod plot yn bwysig mewn drama. Yn wir, meddai 'A human being is the best plot there is' (Galsworthy, 2001, t.47). 'Drama is human.' meddai Eric Bentley yntau (Bentley, 1965, t.4). Ymhellach ystyriwn eiriau Gordon Bottomley mewn perthynas â dramâu clasurol: 'short and simple. There is no surprise of plot. They are dramas of situation, and the interest is not in the turn of events, but in the unfolding of character' (Hallam, 2013, t.22).

Er mwyn archwilio'r berthynas hon rhwng cymeriad a phlot ymhellach, ystyriwn eto'r ddrama *Siwan* gan Saunders Lewis. Drama hanesyddol yw hon, a'i phlot yn datblygu elfennau'r stori hysbys a geir yn *Brut y Tywysogion*, ond ei rhagoriaeth heb os yw ei phrif gymeriad. Onid ei chymhlethdod seicolegol hi, y dywysoges sydd am fod yn ferch, y gwleidydd sydd am roi rhyddid i 'egni nwydwyllt' ei chymeriad, sy'n gafael yn y gynulleidfa? Ei pherthynas hi â'i gŵr, Llywelyn, yw canolbwynt y ddrama. Cymaint yw dieter Llywelyn fel na all ond gweiddi 'Caiff crogi fel lleidr pen ffordd' (Lewis, 2002, t.54). Ac ar ddiwedd yr ail act, wedi i ni gael ein cynnwys yn y dorf a welodd y crogi hwnnw gerbron Alis, cymaint yw casineb Siwan at ei gŵr nes ei bod yn ei felltithio. Yn wyneb y fath emosiwn, sut y gall y ddau hyn gymodi? Dyna'r cwestiwn sy'n cynnal ein diddordeb yn yr act olaf, wrth i'r naill geisio deall cymeriad y llall. Dyfyniad perthnasol wrth drafod y ddrama hon, felly, yw'r un hwn o eiddo Steve Walters. Meddai: 'The very fact that characters bear an identity separable from scenarios that contain them is often what the play is in fact about - they are bigger than the facts of the story' (Walters, 2010, t.100). Mae hynny'n sicr yn wir am Siwan a Llywelyn, a gellir cymhwyso'r sylw hefyd at ddrama arall gan Saunders Lewis, sef *Esther*. Calon y ddrama hon yw ofn Esther, cymeriad sy'n poeni na chaiff ei theimladau eu gwerthfawrogi gan ei gŵr, y brenin Ahasferus, na fydd ef yn 'ymateb' iddynt (Williams, 2000, t.198). At hyn, gallwn nodi ei bod yn teimlo unigrwydd mawr a hithau'n alltud o'i chenedl ei hun. A dyfynnu Ioan M. Williams: 'Dengys ei gweddi ei bod hi'n bell o fod yn caru Ahasferus, ac yn meddwl amdani ei hun fel alltud o Israel yn ei wely ef' (Williams, 2000, t.197). Apêl y ddrama yw'r modd y mae'r ferch alltud ofnus hon a welwn yn yr act gyntaf yn newid ac yn llwyddo i ennill calon ei gŵr a dyfodol ei chenedl. A rhan o'r apêl, wrth gwrs, yw'r modd y mae'n gwneud hynny wyneb yn wyneb â chymeriad mawr arall, sef Haman, gwrth-arwr y ddrama.

Drama sy'n seiliedig ar stori yn yr Hen Destament yw *Esther* gan Saunders Lewis. Wrth sôn am gymeriad Haman, meddai Ioan M. Williams: 'llwyddodd Saunders Lewis nid yn unig i gynnig cymhelliad digonol i'r casineb a deimla tuag at Mordecai a'i bobl, ond hefyd i godi deunydd y chwedl i lefel uwch'

(Williams, 2000, t.196). Os edrychwn ar yr act olaf ac ymateb Haman i Ahasferus, gallwn weld mor fyw yw ei gasineb tuag at Esther a'r Iddewon, 'Ydych chi'n ensynio mai fi? Ydych ch'n f'amau i ar awgrym hogan sy'n brwydro fel cath dros ei chathod bach, yr Iddewon?' Ac ymhellach: 'Ydy cas a malais yr Iddew i goncro heddiw?' (Lewis, 2000, t.259). Gallwn wir deimlo ei gasineb yn y cwestiynau rhethregol hyn. Dyma gymeriad arall sy'n amlygu cywirdeb awgrym Steve Walters: mae rhai cymeriadau'n fwy na ffeithiau'r stori (Walters, 2010, t.100).

Nid yw'r ffath gymeriad - hyd yn oed y cymeriad mawr, cofiadwy - yn llwyr annibynnol ar blot. Nododd Aristoteles, wrth iddo drafod gwahanol elfennau'r ddrama, mai'r 'bwysicaf ohonynt yw saerniaeth y digwyddiadau' (Aristoteles, 2001, t.80). Mae llawer yn cytuno â'r datganiad hwn. Sylwer ar yr hyn y mae Eric Bentley yn ei ddweud yn ei lyfr, *The Life of Drama*: 'If a plot is an edifice, the bricks from which it is built are events, occurrences, happenings, incidents' (Bentley, 1965, t.4).

Y gwir amdani yw fod angen i'r gwahanol elfennau hyn ddod ynghyd, nes mai'r hyn a geir yw cymeriad yn ei ddigwydd. Wrth sôn am 'ddigwydd', y gair a ddefnyddia Tudur Hallam sy'n cynnwys ynddo'r cysyniad o blot meddai ef yn *Saunders y Dramodydd*: 'Dyna'r gwaith hunllefus sy'n her i'r dramodydd: sicrhau bod pob un gair o enau'r cymeriadau, a phob un ystum neu wrthrych ar lwyfan, yn rhan o'r digwydd' (Hallam, 2013, t.22).

Ar ben hyn, 'Characters in plays are there, when it boils down to it, to perform certain tasks: to further the plot whilst also informing us' meddai Alan Ayckbourn (Ayckbourn, 2002, t.35). Wrth geisio llunio plot neu stori, rhaid inni edrych ar bedwar cwestiwn pwysig yn ôl Ayckbourn: 'how, when, where and with whom are you going to tell your story?' (Ayckbourn, 2002, t.12). Yn ôl y gosodiad hwn, mae'r plot a'r cymeriad yn rhan o'r un broses greadigol o feddwl am y ffordd orau o gyflwyno stori. Ategir hyn gan sylw Emyr Edwards: 'Cymeriad yn gwneud rhywbeth yw drama' (Edwards, 2012, t.55).

Ar un olwg, stori cymeriad yw'r elfen bwysicaf, y syniad o stori bosib y gellir ei chyflwyno ar ffurf drama. Fel y nododd Ayckbourn, ni ddylid dechrau cyfansoddi drama heb syniad am stori dda. Heb syniad cychwynnol, cryf, ni fydd dim yn tanio (Ayckbourn, 2002, t.6). Mewn modd tebyg, cred Emyr Edwards fod 'ANGEN CAEL yr ysbrydoliaeth i ddechrau, yr ysbrydoliaeth i ddod o hyd i stori fydd yn cynnal syniadau'r awdur am gymeriadau a sefyllfaoedd, am ddigwyddiadau ac am wrthdaro' (Edwards, 2012, t.39). Dyma awgrymu eto mai syniad am gymeriad mewn sefyllfa o ddigwydd a olygir. Os ydym am feddwl am ddigwyddiad, rhaid holi - pwy sydd yn y digwyddiad, neu beth sy'n digwydd i bwy, neu pwy sy'n gwneud beth? Os ydym yn meddwl am wrthdaro, yn yr un modd, rhaid holi pwy sy'n gwrthdaro â phwy, neu beth? Bydd bob amser y cwestiwn uniongyrchol pwy? yn dominyddu'r cyfansoddi, a bydd yn rhaid iddo neu iddi gymhelliad wedyn, drwy gyfrwng cwestiwn arall, sef pam?

Er y gallwn ddadlau, yn ôl ac ymlaen p'un ai yw cymeriad yn bwysicach na phlot neu blot yn bwysicach na chymeriad, ni ellir gwadu'r ffaith fod y ddwy elfen hyn yn allweddol wrth ysgrifennu drama. Dyma'r ddwy a restrir gyntaf gan Hatcher wrth iddo drafod syniadau Aristoteles: 'action or plot. Character, thought or ideas. Language, diction or verbal expression. Music or song. Spectacle, image, or visual adornment' (Hatcher, 2000, t.21),

Mae'r ystyrithau hyn yn sicr yn berthnasol i'r ddrama rwyf wedi'i llunio am y dywysoges Gwenllian. Fel y dramâu *Siwan* ac *Esther*, mae'r hanes a'r digwyddiadau'n bwysig iawn i ddatblygiad y cymeriad. Fodd bynnag, byddwn yn dadlau mai'r cymeriad yw'r elfen bwysicaf mewn gwirionedd. Yn y cefndir y mae'r hanes. Geiriau, dewisiadau a gweithredoedd y cymeriadau yw calon y ddrama. Mewn gair, cymeriad yn ei ddigwydd.

Syniad

Y cam cyntaf wrth lunio drama yw dod o hyd i syniad y gellir ei ddatblygu'n ddrama. (Nid ystyr 'syniad' yn y cyswllt hwn felly yw syniadaeth y ddrama, ei hathroniaeth neu ei neges). Wrth drafod syniad, cred Emyr Edwards fod 'angen i'r awdur feddwl drosto, chwarae gyda'r syniad, a gweld a oes yna bosibilrwydd y gellid estyn y syniad i strwythur dramatig' (Edwards, 2012, t.36). Mae'n deg dweud na ellir datblygu pob syniad yn ddrama, felly mae'n bwysig dewis yr un iawn, cyn ei ddatblygu.

Un cwestiwn pwysig wrth feddwl am syniad cychwynnol yw'r un hwn - o ble mae'r syniad yn dod? Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn syml ond yn gymhleth ar yr un pryd sy'n golygu bod yr ateb weithiau'n annelwig. Gall syniadau ddod o unrhyw le. Gall syniadau ddeillio o faes hanes, digwyddiadau cyfoes yn y newyddion, o fyd llên a theledu (addasiadau), neu ar sail profiadau byw (Hatcher, 2000, t.67).

Er y gellir ffurfio syniadau o bron unrhyw beth, mae llawer yn dadlau mai bywyd go iawn yw'r ffynhonnell syniadol orau mewn gwirionedd. Sylwer ar yr hyn sydd gan Tim Fountain i'w ddweud am syniadau yn ei lyfr *So You Want To Be A Playwright?*: "Nothing beats life itself" - and it is true' (Walters, 2010, t.30). Dyna ran o apêl y ddrama hanesyddol, i raddau.

Dramodydd sy'n adnabyddus am ddramâu sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau hanesyddol, neu storïau go iawn, yw Saunders Lewis. Crybwyllwyd dwy o'r dramâu hyn eisoes yn yr adran flaenorol, sef *Siwan*, sy'n seiliedig ar fywyd y dywysoges a oedd yn wraig i Lywelyn Fawr ac yn ferch i'r Brenin Ieuan, ac yna *Esther*, drama sy'n seiliedig ar stori hanes yn y Beibl. At y rhain seiliodd Saunders Lewis ragor o ddramâu ar ddigwyddiadau go iawn. Ystyrier ei eiriau wrth iddo drafod ei ddrama *Cymru Fydd* yn ei ragair: 'Man cychwyn y ddrama oedd darllen hanes mewn papur newydd Saesneg' (Williams, 2000, t.543).

Gall egin syniad fod yn lle, yn amser, yn ddigwyddiad neu hyd yn oed yn gymeriad a'i gymhellion.

Sylwer ar yr hyn a ddywed Alan Ayckbourn am ysbrydoliaeth un o'i ddramâu ef. Cododd o 'sefyllfa', meddai, a'r sefyllfa honno oedd 'y byddai dyn ifanc yn gofyn i ddyn hŷn a allai briodi ei ferch' (Ayckbourn, 2002, t.9).

Yn achos un arall o ddramodwyr mawr y Gymraeg, Gwenlyn Parry, gafaelodd y syniad o ystyr Duw ynddo wrth iddo ysgrifennu *Saer Doliau*. Meddai: 'Our original ideas, the ones I had adopted in Sunday School about God were completely wrong - completely mad...', felly roedd Saer Doliau yn cyd-daro ag ailwerthusiad Parry o'i fagwraeth ysbrydol a deallusol, ac yn chwarae â'r syniad o Dduw (Owen, 2013, t.35).

Dod ar draws syniad cryf, addawol yw'r peth anoddaf i'w wneud wrth lunio drama. Dyma sylfaen y ddrama, ac yn debyg i dŷ, os na osodir sylfaen gadarn, yna mae'r holl beth yn debygol o ddisgyn a chwalu'n ddim. Ond unwaith y bydd syniad am ddrama wedi gafael yn y dramodydd, rhaid yw ei ddatblygu mewn modd theatrig ar gyfer cynulleidfa. Gellir gwneud hyn mewn dwy ffordd wahanol. Yn gyntaf, trwy ddeialog y cymeriad. Yr ail ffordd yw trwy weithredoedd y ddrama (Hatcher, 2000, t.42).

O ran fy nrama i *Gwenllian*, deuthum ar draws y syniad wrth ddarllen llyfr hanes, sef *Gwenllian The Welsh Warrior Princess* gan Peter Newton (Newton, 2002). Deuthum ar draws hanesion pobl fel Catrin Glyndŵr a'r Arglwydd Rhys, a hefyd Gwenllian. Roedd posibiliadau ei stori yn ddiddiwedd. Teg dweud mai rhan o'r apêl oedd meddwl am yr anawsterau y daeth ar eu traws yn ystod ei hoes, y brwydrau y bu'n rhaid iddi hi, a hithau'n ferch, eu hymladd, y tu mewn iddi hi ei hun, ei theulu a'i gwlad.

Thema a Genre

Mae penderfynu ar thema neu genre yn hanfodol i ddrama lwyddiannus. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi cyn symud ymlaen â'r adran hon, fod genre a thema yn wahanol mewn gwirionedd. Categori o gelfyddyd, cerddoriaeth neu lenyddiaeth yw genre, ac sy'n ymwneud yn bennaf â ffurf neu ddull. Mae thema ar y llaw arall yn fwy syniadol ac yn tarddu o'r cynnwys. Dywed Robert McKee: 'To make sense of this outpouring [of films], various systems have been devised to sort stories according to shared elements, classifying them by *genre*' (McKee, 1999, t.79). Er enghraifft, ystyrier un math o genre, drama arswyd. Pe baem yn fwy penodol ac am siarad am y themâu, efallai y dywedem mai drama arswyd sy'n trafod brad a marwolaeth yw hi. Er bod gwahaniaeth rhwng thema a genre, maen nhw'n wir yn dibynnu ar ei gilydd ac yn mynd law yn llaw, ac mewn gwirionedd, mae thema yn dibynnu ar genre i raddau.

Ceir sawl gwahanol fath o genre ym maes y ddrama, gan gynnwys drama arswyd, drama ramantus, drama hanesyddol neu ddrama gyfnod, drama gomedi, drama glasurol, drama absŵrd. Heb genre, sy'n ffordd i gyflwyno cynnyrch yn unol â disgwiliadau cynulleidfaoedd, ni fydd y cynnwys yn golygu llawer i'r darlennydd na'r gwyliwr. Mae'n rhaid i'r darlennydd gael syniad o'r math o ddrama y mae'n ymwneud â hi, neu efallai y bydd yn dewis cadw draw neu, wrth yllio neu ddarllen, yn drysu. Dadleua Terence Hawkes fod genre yn rhan o'r broses o greu fframwaith rhagdybiaethau a disgwiliadau i ddarllenwyr a chynulleidfaoedd, fel y gallant ddadgodio llenyddiaeth (gan gynnwys drama) yn yr un modd ag y mae'r ysgrifennwr yn ei chodio yn y lle cyntaf (Hawkes, 1977, tt.103-104).

Dyma syniad defnyddiol ar gyfer dramodwyr. Sylwer ar yr hyn y mae David Edgar yn ei ddweud yn ei lyfr *How Plays Work*: 'Much more useful for playwrights is the idea of genre as a set of expectations of storyline, character, locale and outcome' (Edgar, 2012, t.65). Er y gall genre olygu elfen o ddiffyg gwreiddioldeb a stori ragweladwy - a dyfynnu Edgar: 'genre exposes theatre's dirty little secret, which is that audiences know the ending to most plays...' (Edgar, 2012, t.65) - gellir defnyddio theori genre hefyd fel canllaw i sicrhau bod drama o safon arbennig ac yn bodloni neu'n herio disgwiliadau gwylwyr. Felly mewn termau eraill, mae genre yn sicr o werth i'r awdur wrth iddo ef neu iddi hi greu drama, a hynny gan ei fod o werth i'r darlennydd neu'r gwyliwr.

Wrth ysgrifennu fy nrama *Gwenllian*, roedd yn rhaid i mi gadw hyn mewn cof. Yn achos y ddrama Gymraeg, y mae *Esther* a *Siwan* wedi gosod cysail o ddisgwiliadau ar gyfer y ddrama hanesyddol, ac yn fwy penodol, drama hanesyddol ac iddi ddynes yn brif gymeriad. Roedd yn rhaid imi ystyried y byddai'r gynulleidfa Gymraeg fwy na thebyg yn cymharu *Gwenllian* â'r dramâu hyn. Ymhellach, y mae Saunders Lewis yn meddu ar statws canonaidd ym maes y ddrama Gymraeg. Nododd Ioan M. Williams fod ei ddramâu ef 'wedi addysgu'n clustiau' ninnau (Hallam, 2013, t.28). Gan fy mod yn ymwybodol o'r dylanwad Saundersaidd ar y gynulleidfa Gymraeg felly, roedd yn hanfodol i mi ddefnyddio *Siwan* ac *Esther* fel canllawiau ar gyfer y math o iaith, plot ac estheteg y byddwn yn eu defnyddio.

O wybod bod y ddrama wedi'i seilio ar dywysoges hanesyddol Gymreig, gallwn ragdybio y bydd iaith y cymeriadau'n aruchel, hynny yw, nad tafodiaith Gwenlyn Parry, neu'n fwy diweddar, Dafydd James, a glywir ar y llwyfan.

Ymhellach, o adnabod genre y ddrama hon, sef y ddrama hanesyddol Gymraeg, gallwn ragweld y byddai'n cynnwys ynddi rai themâu allweddol, themâu a gysylltir â dramâu hanesyddol, clasurol, er

enghraifft, perthynas deuluol a phriodasol, y tensiwn rhwng dyletswydd a'r awydd i fod yn rhydd rhagddo, rhyfel, rôl y ferch, godineb, maddeuant a chymod. Gwelir enghraifft o'r awydd hwn i gymodi rhwng gŵr a gwraig yn nhrydedd act y ddrama *Siwan*, lle mae Llywelyn yn cyffesu ei gariad tuag at Siwan, gan geisio adfer eu perthynas, er iddo grogi Gwilym Brewys, ei chariad hi:

LLYWELYN: 'Drawodd o ar dy feddwl di, Siwan, Y gallai 'mod i'n dy garu di fel Gwilym Brewys?
 SIWAN: Ti'n fy ngharu? Be' wyt ti'n ei feddwl?
 LLYWELYN: 'Ydy'r gagendor rhyngom gymaint â hynny? (Lewis, 2002, t.79).

Yn ôl Jeffrey Hatcher, 'when Aristotle wrote about a play's idea, he was referring to what we now more often call "theme"' (Hatcher, 2000, t.40). Fodd bynnag, nid yw penderfynu ar thema mor hawdd ag y mae'n ymddangos. Yn amlach na pheiddio, mae'n cael ei benderfynu gan y sefyllfa a'r cymeriadau yn fwy na'r dramodydd mewn gwirionedd. Sylwer ar yr hyn y mae Emyr Edwards yn ei ddweud am thema: 'Gall y thema fod yn gywasgiad o syniad canolog y ddrama', ac â ymlaen wedyn i ddweud: 'Mae'n bosib y gall thema dyfu wrth i'r dramodydd lunio strwythur, neu gyfansoddi darnau o ddeialog' (Edwards, 2012, t.37).

Os nad yw'r dramodydd mewn rheolaeth lwyr wyneb yn wyneb â'r dasg o benderfynu thema'r ddrama, rhaid holi pam y mae rhai fel William Archer yn argymhell, peth fel hyn: 'The first step towards writing a play is manifestly to choose a theme' (Archer, 1913, t.13). Gan wybod bod thema yn dibynnu ar genre i ryw raddau, onid mwy priodol yw ochri â Tim Fountain a'i honiad ef: 'it's a mistake to begin your journey by predetermining the genre you are going to write in. It limits the scope of your imagination and the range of your characters' (Fountain, 2007, t.23). Dyma awgrymu eto mai cychwyn â chymeriad a sefyllfa sydd orau.

Er gwaethaf yr anghytundeb ymddangosiadol hwn ynghylch pa mor bwysig yw thema a genre a lle maent yn eistedd ar restr flaenoriaethau'r dramodydd, ni allwn wadu eu bod i gyd yn bwysig wrth greu drama lwyddiannus. Mae thema a genre yn sicr yn bwysig o ran hunaniaeth drama, gan helpu'r gwyliwr neu'r darllynydd i ddeall y ddrama o'r cychwyn.

Roedd pwysigrwydd thema a genre yn bwysig iawn wrth i mi lunio fy nrama *Gwenllian*. Yn sicr, roedd y ffaith bod y genre yn un hanesyddol yn help i mi wrth adeiladu'r plot a'r digwyddiadau. Gan wybod mai dyma'r genre yr oeddwn i'n mynd i fod yn gweithio ynddo, roedd gen i syniad annelwig eisoes o sut y byddai'r iaith, y gwisgoedd a'r lleoliadau yn cyd-weithio i greu math penodol o ddrama. Fodd bynnag, ni ddaeth themâu'r ddrama i'r amlwg tan i mi gychwyn ar y dasg o ysgrifennu'r ddeialog, wrth i'r cymeriadau ddechrau amlygu sut roeddent yn ymateb i'r digwydd. Trwy'r broses hon, dechreuodd prif themâu'r ddrama ymffurfio: cariad, rhyfel, teulu a brad.

Amser

Ceir dau fath o amser yn y theatr. Yn gyntaf, ceir yr amser a dreulir yn y theatr, amser llwyfan. Mae hyn yn dibynnu ar y math o ddrama a gynhyrchir. Os yw'n ddrama fer, bydd yn rhedeg am tua hanner awr, ac os yw'n ddrama hir, bydd yn rhedeg am ryw ddwy i dair awr.

Yr ail fath o amser yw'r un hwnnw y mae'r dramodydd yn delio ag ef o fewn strwythur y ddrama, amser ffuglennol (Edwards, 2012, t.49). Gall hyn amrywio'n fawr. Os edrychwn ar y ddrama *Siwan*, er enghraifft, mae act gyntaf y ddrama wedi ei gosod ym 1230 ac mae'r act olaf yn gorffen ym 1231. Yn yr act olaf, cyfeiria Llywelyn at ddigwyddiadau'r act gyntaf gan ddweud, 'Blwyddyn i'r bore hwn. Mi fûm innau'n cyfri'r dyddiau' (Lewis, 2002, t.73).

Mae'r amser y caiff y ddrama ei gosod ynddi a'r amser a dreulir wrth ei pherfformio yn amrywio'n fawr yn achos ambell ddrama. Penderfynodd Saunders Lewis y byddai digwydd y ddrama *Siwan* yn cymryd lle dros gyfnod o flwyddyn. Fodd bynnag, mae nifer o enghreifftiau y gellir eu canfod sydd ag amser ffuglennol llawer mwy a llawer byrrach ar gyfer cyflawni camau gweithredu.

Er enghraifft, wrth edrych ar y ddrama *Y Tŵr* gan Gwenlyn Parry, gallwn weld bod yr amser ffuglennol ar gyfer cyflawni gweithredoedd y ddrama hon yn fwy o lawer na'r hyn a welir yn y ddrama *Siwan*. Daw'r ddrama â dau unigolyn ifanc ynghyd sy'n teithio ar hyd eu hoes gyda'i gilydd. Mae'r act gyntaf yn cyfeirio at y ddau unigolyn hyn fel 'Llanc' a 'Merch' gan nodi eu bod yn unigolion ifanc (Parry, 2001, t.209). Fodd bynnag, awn ymlaen wedyn i'r act nesaf lle rhoddir sylw iddynt fel 'Gŵr' a 'Gwraig' (Parry, 2001, t.231). Yn yr act olaf, rhoddir sylw iddynt wedyn fel 'Hen ŵr' a 'Hen wraig' (Parry, 2001, t.251). Er na phennir yn union gwmpas yr amser ffuglennol, gellir tybio ei fod o gylch hanner can mlynedd a mwy.

Ar y llaw arall, wrth edrych ar y ddrama *Tŷ ar y Tywod* gan Gwenlyn Parry, gallwn weld bod yr amser ffuglennol ar gyfer cyflawni gweithredoedd y ddrama hon yn llawer byrrach nag un y ddrama *Siwan* a'r ddrama *Y Tŵr*. Mae'r ddrama'n cychwyn mewn 'ystafell afreal a bregus' gyda Gŵr y Tŷ yn agor y ddrama, tra bo Delw yn cysgu (Parry, 2001, t.106). Cyn gynted ag y mae'r ddrama'n dechrau mae pob act yn llifo i'w gilydd. Wrth edrych ar y stampiau amser y mae Gwenlyn Parry yn eu darparu, sef 'Amser: Parhad o'r olygfa flaenorol', yn act dau a thri gallwn dybio bod gweithredoedd y ddrama hon yn cael eu perfformio mewn amser ffuglennol byr, sy'n rhedeg ar un olwg ag amser y llwyfan (Parry, 2001, t.120).

Mae'r tair drama wahanol hyn yn dangos i ni y gall yr amser ffuglennol ar gyfer cyflawni gweithredoedd drama fod yn wahanol iawn. Nid oes unrhyw reol bellach sy'n dweud bod yn rhaid i ddrama gael ei pherfformio dros gyfnod penodol. Teg nodi bod Aristoteles o'r farn y dylai holl ddigwyddiadau'r ddrama gymryd lle 'in a single twenty-four hour time period', chwedl Hatcher (Hatcher, 2000, t.62). Mewn modd tebyg, roedd gofynion undod Aristoteles o ran lleoliad yn mynnu y dylai holl ddigwydd y ddrama ddigwydd mewn un lle: 'all events take place in a single setting' (Hatcher, 2000, t.62). Ond nid yw'r mwyafrif o ddramâu yn cael eu cyfansoddi fel hyn bellach.

Ystyrier *Rhith y Rhosyn* gan Tennessee Williams. Nid yw ysbeidiau amser y ddrama hon yn gyson o bell ffordd. Mae'r act gyntaf yn cynnwys chwe golygfa. Mae'r olygfa gyntaf yn dechrau: 'Fin nos'; mae'r

olygfa ganlynol, golygfa 2, wedi'i gosod: 'Ychydig cyn toriad dydd, trannoeth' a dilynir hon yn agos gan y drydedd olygfa: 'Canol dydd yr un diwrnod'. Fodd bynnag, yn y bedwaredd olygfa rydym yn cyrraedd naid amser go fawr yn y ddrama: 'Bore o wanwyn hwyr, tair blynedd yn ddiweddarach' ac mae golygfeydd pump a chwech yn dilyn yn agos: 'Yn dilyn yn syth' a: 'Dwy awr yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw' (Williams, 2009, t.8). Mae'r ddrama hon yn parhau i fod heb unrhyw gysondeb o ran y cyfnodau amser dros y tair act, deg golygfa, ac mae'n pwysleisio ymhellach nad oes unrhyw reolau o ran llunio drama a'r amser ffuglennol ynddi. Meddylier am ddrama arall gan Saunders Lewis, *Brad*. Mae'n dechrau yn yr act gyntaf am '2:30 p.m., dydd Iau, Gorffennaf 20, 1944' (Lewis, 2000, t.33) ac yna'n cyrraedd y drydedd act a'r olaf am 'chwarter i naw y bore Sul, Gorffennaf 23' (Lewis, 2000, t.79), dridiau'n ddiweddarach.

Fel y dangosir gan y dramâu hyn, nid yw pob drama yn dilyn y canllawiau a ddarparwyd gan Aristoteles a'i undodau. Serch hynny, cred Alan Ayckbourn mai pennu'r amser, neu'r cyfnod yn hytrach, yw un o'r penderfyniadau pwysicaf wrth greu drama (Ayckbourn, 2002, t.20), oherwydd bydd pennu'r cyfnod yn penderfynu nifer o bethau yn y ddrama, fel yr iaith a'r gwisgoedd. Os ceir drama sydd wedi ei lleoli yn y gorffennol, megis *Siwan*, 'Bore Calan, Mai 1231', bydd yr iaith yn wahanol i'r iaith a ddefnyddir heddiw. Defnyddir iaith fwy llenyddol, barddoniaeth siarad, er mwyn ceisio cyfleu'r pellter amseryddol a chymdeithasol, a defnyddir ymadroddion Catholig i gyfleu natur grefyddol yr oes, megis 'Duw a Mair i'th gadw, nos da' (Lewis, 2002, t.38).

Mae amser yn sicr yn bwysig o ran adeiladu drama, fel y nododd Alan Ayckbourn. Mae'n rhan o'r plot a sut y bydd y ddrama'n datblygu. Rhaid i'r ddau fath o amser – yr amser ffuglennol a'r amser perfformio – weithio gyda'i gilydd, oherwydd rhaid dangos yr amser ffuglennol o fewn terfynau amser y llwyfan.

Efallai y bydd darlennydd neu wyliwr drama yn teimlo ei fod yn nes at y digwydd a'r cymeriadau os yw'r ddau fath o amser yn cyd-redeg, hynny yw, gan arddel yr ymdeimlad o undod a hyrwyddai Aristoteles. A dyfynnu Alan Ayckbourn: 'The more closely stage time equates to real (theatre foyer) time, the closer to the action we appear to get' (Ayckbourn, 2002, t.22). At hyn, noda Angela Parra: 'actions need to take approximately as much time to happen as they do in real life' (Parra, 2011, t.162). Mae hyn yn arbennig o effeithiol yn achos Act 2, *Siwan*, er enghraifft, pan fo'r digwydd ar y llwyfan – y crogi – yn cyd-redeg ag amser go iawn y gynulleidfa, a phan yw Alis yn edrych ar y gynulleidfa'n uniongyrchol wrth iddi gyfarch y dorf ar y lawnt.

Er bod rhai agweddau dadlennol yn ymwneud ag amser yn opsiynol, ni ellir dadlau yn erbyn un ystyriaeth. Honno yw pwysigrwydd amser i gynulleidfa. Gall amser ddal neu golli sylw'r gynulleidfa. Fel y dywed Steve Walters: 'Only in theatre is time so irreducibly centre stage and, given that fact, the playwright's inner stopwatch is critical' (Walters, 2010, t.71).

Wrth lunio drama a thrin amser, mae'n hollbwysig cadw'r gynulleidfa mewn cof gan mai hi a fydd yn gorfod teithio drwy'r ddrama, o fan cychwyn y ddrama i'w phen draw, a chyd-brofi amser ffuglennol a'r amser perfformio, amser y llwyfan. Ni wn i am un gynulleidfa sydd am eistedd mewn theatr am gyfnod o bedair awr ar hugain yn gwyllo holl ddarnau diflas y stori. Yn hytrach, fel yr awgrymodd Jeffrey Hatcher: 'The audience wants the playwright to cut out the dull bits' (Hatcher, 2000, t.63).

O ystyried bod amser yn un o'r agweddau pwysicaf a nodir gan ddramodwyr a beirniaid drama brofiadol, roedd yn rhaid i mi dalu llawer o sylw i'r agwedd hon wrth i mi ysgrifennu fy nrama, *Gwenllian*. Mae naid amser o tua deng mlynedd rhwng y ddwy act ac mae'r ddwy act yn canolbwyntio ar foment allweddol ym mywyd Gwenllian. Y rheini yw, yn gyntaf, yr adeg y gadawodd ei thad i ymuno â'i chariad, ac yn ail, yr adeg y cafodd hi a'i theulu eu dal yn gaeth gan y Normaniaid. Drama sy'n gwneud rhywbeth tebyg gydag amser a digwyddiadau allweddol ym mywyd rhywun yw *Poen yn y Bol* gan Gwenlyn Parry. Mae'r ddrama, fel y noda Roger Owen, yn gofnod cryno o fywyd Billi a Neil Puw. Mae'r ddrama yn dechrau gyda Billi yn cael llawdriniaeth, apendectomi. Fodd bynnag, awn ymlaen wedyn i ddysgu am rai o'r prif ddigwyddiadau ym mywyd Billi. Cawn gyffwrdd â'i blentyndod, ei briodas, ei swydd, ei fywyd teuluol cyn dychwelyd o'r diwedd i'r man lle dechreuodd y cyfan yn y ddrama, ei boen a'r apendectomi (Owen, 2013, t.18).

Mae fy nrama i ar hyn o bryd yn rhedeg am gyfnod rhesymol o tua thri deg munud i bedwar deg pump. Crynhoais y digwyddiadau allweddol yn y naid deng mlynedd drwy gyfrwng deialog y cymeriadau. Er enghraifft, yn yr ail act dysgwn fod Gwenllian wedi bod yn rhyfela sawl gwaith yn erbyn y Normaniaid, hyd yn oed pan oedd yn feichiog. Gan sylwi ar sut y llwyddodd Saunders Lewis i gyflwyno ffeithiau hanesyddol y cyfnod yn Act 3 *Siwan*, ceisiais wau'r ffeithiau hyn i'r ddeialog mewn modd cynnil, ystyrllon, heb gollu ffocws ar chwant y cymeriadau.

Lleoliad a Chyfarwyddiadau

Ynghyd â'r cyfnod, gellir dadlau bod y dewis o leoliad yn bwysig iawn i ddrama lwyddiannus gan ei fod yn gallu gosod naws y ddrama ac mae'n rhan sylweddol o'r hyn y bydd y gynulleidfa yn ei weld ar y llwyfan. Nododd Alan Ayckbourn fod o leiaf hanner cant y cant o'r ddrama yn weledol. Mae'r datganiad hwn yn dangos pa mor bwysig yw dewis lleoliad diddorol i ddrama lwyddiannus (Ayckbourn, 2002, t.33).

Gall pennu'r lleoliad ar gyfer drama fod yn anodd, gan fod cymaint o opsiynau a phosibiliadau. Gellir trefnu'r llwyfan gwag sy'n rhoi mwy o sylw i'r cymeriadau a'r ddeialog neu gellir trefnu'r llwyfan fel ei fod yn llawn gwrthrychau. Mae'n bosibl cael yr un set ym mhob act, fel yn y ddrama *Saer Doliau*, neu mae modd newid y lleoliad o act i act fel yn y ddrama *Romeo a Juliet*. Gall y dewis o leoliad ddangos cymeriadau o bersbectif newydd. Yn wir, dywed David Edgar fod gan leoliadau annisgwyl y potensial i ddangos y ddrama o ongl ddiddorol (Edgar, 2012, t.181).

Mae hyn yn wir yn achos fy nrama *Gwenllian*. Yn fy nrama mae'r lleoliad yn newid unwaith. Cychwynnwn yn ystafell wely Gruffudd ap Cynan, yn ei gastell, ac yna rydym yn gorffen mewn bwthyn Normanaidd yn y goedwig, sy'n cyferbynnu â moethusrwydd yr ystafell wely. Mae lleoliad yn bwysig yn y ddrama hon gan ei fod yn caniatáu i rai digwyddiadau gael eu cynnal. Yn yr ail act, cawn fod gard Normanaidd yn dod â Maelgwen at ei fam, Gwenllian, ar ôl iddo fe gael ei gosbi gan y gard. Mae'r lleoliad yn caniatáu i hyn ddigwydd, gan ganiatáu i'r ddrama symud yn ei blaen. Meddai Michelene Wandor: 'In the end, there is always an active relationship between location, what takes place and how it takes place' (Wandor, 2008, t.156).

Yn rhan o'r set, dylid hefyd ystyried y defnydd o bropiau, ac mae'r rhain yn ddefnyddiol pan drafodwn isod gyfarwyddiadau llwyfan. Mewn modd tebyg i'r elfen amser, ceir gwahanol fathau o gyfarwyddiadau. Yn gyntaf, ceir cyfarwyddiadau sy'n hynod i'r llwyfan. Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys sain, y llenni yn agor a'r llenni yn cau, goleuo, y propiau a ddefnyddir, ac am ba le y dylid gosod popeth ar y llwyfan. Gall y math hwn o gyfarwyddiadau ddweud llawer am y math o ddrama rydyn ni'n ei ddarllen neu'n ei wyllo, ac ar brydiau gall wneud y cyfan yn fwy dealladwy wrth ddarllen drama. Edrycher ar *Y Tŵr*, er enghraifft, drama absŵrd gan Gwenlyn Parry: 'Pan gyfyd y llen, mae'r llwyfan yn dywyll. Cryfheir golau gwyrdd ar y ffenestr i greu'r argraff fod y golau yma yn llenwi'r ystafell' (Parry, 2001, t.209). Sgrin ar y set yw'r ffenestr hon, a cheir 'ffilm ar y sgrîn (sef y ffenestr)...' (Parry, 2001, t.210). Mae'r cyfarwyddiadau syml hyn yn ychwanegu cymaint at naws y ddrama, ac yn cynorthwyo'r darlennydd i ddeall beth a fydd y gwylwr yn ei weld.

Ymhellach, yn yr un paragraff, mae Gwenlyn Parry yn cyfeirio at sain y ddrama: 'Yn yr un modd, cryfheir miwsig. Nid miwsig naturiol yng ngwir ystyr y gair ydyw, ond rhyw fath o ddilyniant o synau haniaethol, cynhyrfus ac arallfydol' (Parry, 2001, t.209). Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dweud llawer wrthym am y math o ddrama yr ydym yn ei ddarllen neu'n ei wyllo. Defnyddir cerddoriaeth hurt i gefnogi abswrdaeth y ddrama.

Ystyrier lleoliad yr olygfa yn y ddrama *The Eve of Saint John* gan Saunders Lewis: '*A Welsh farm-house in the late afternoon of St John's Eve, some early year of the last century. SARA MORRIS has been talking to her daughter and the girl interrupts*' (Lewis, 1996, t.15). O'r disgrifiad byr hwn, gellir gweld mor

bwysig i'r ddrama yw'r lleoliad a'r cyfnod. Dysgwn y bydd gosodiad y llwyfan yn debyg i leoliad ffermdy yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gellid disgwyl y bydd y goleuadau llwyfan yn cyfleu gwyll y dydd.

Ceir cyfarwyddiadau mwy manwl gan Saunders Lewis yn ei ddrama, *Eisteddfod Bodran*. Ystyrier y llinellau hyn o'r act gyntaf: 'Ychydig dai yn y cefn ar ddwy ochr y llwyfan; ar lidiart un tŷ nas gwelir y mae'r hysbysiad "Tŷ'r Heddlu". Mainc ar un ochr i'r llwyfan yn y ffrynt' (Lewis, 1996, t.339). O'r ddwy linell hyn, gwelwn fod Saunders Lewis yn nodi sut mae'r llwyfan i gael ei osod, trwy adael i'r gynulleidfa a'r cyfarwyddwyr wybod yn union leoliad rhai propiau, er enghraifft, 'Mainc'. Nid anghyffredin mo hyn mewn drama fodern. Yn y ddrama, *Y Gorthrymedig* gan John Roberts Evans, trefnir y llwyfan yn fanwl, er enghraifft: '*Ystafell yn swyddfa'r Unben. Yn yr ystafell mae desg fawr ac arni ddau neu dri theliffon a microffon, carped ar y llawr a map mawr ar y mur...*' (Evans, 1960, t.9).

Mae cyfarwyddiadau sy'n perthyn i'r llwyfan yn sicr yn bresennol yn y ddrama yr wyf wedi'i hysgrifennu. Ceir enghraifft o hyn yn agoriad yr act gyntaf: '*Ystafell wely Gruffudd ap Cynan. Gwely mawr ar ochr chwith yr ystafell, aur yw ei ffrâm a'r lliainiau'n goch a gwyn ac o'i flaen, ceir cist frown a chwpan aur yn eistedd arni. Gwelir un paentiad mawr yng nghanol yr ystafell o'r brenin Gruffudd ap Cynan ac o'i flaen ceir carped o anifail, arth brown*'. Mae'r paragraff hwn yn gosod y lleoliad ar gyfer y ddrama ac yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r cyfnod a'r sefyllfa. Gwelwn gyfoeth a nerth Gruffudd ap Cynan yn yr un ystafell hon. Mae caniatáu i'r gynulleidfa gael y ddealltwriaeth hon yn bwysig, oherwydd fel y dywed Lisa Lewis: 'nid celfyddyd ynysig yw actio, fe ddibynna'n llwyr ar gynulleidfa' (Hallam, 2013, t.26).

Ymhellach, mae dillad y cymeriadau yn chwarae rhan hanfodol yn fy nrama. Ar ddechrau'r ddrama mae Gruffudd ap Cynan a Gwenllian yn edrych yn gyfoethog, a'r cyfoeth yn awgrymu urddas a grym, ond wrth i'r ddrama ddatblygu, yn yr ail act, mae'r dillad yn newid gan awgrymu cyflwr tlotach. Mae hyn yn ein galluogi i weld y newidiadau syfrdanol sy'n amlygu eu hunain ym mywyd Gwenllian. Ceir enghraifft o hyn ar ddechrau'r act gyntaf: '*Wrth i'r drws agor, rydyn ni'n dechrau gweld hen ddyn cyfoethog a choron ar ei ben a thu ôl iddo ferch ifanc mewn ffrog denau goch a gwyrdd ac yn gwisgo ar ei phen hithau goron ac arni gemau gwynion*', ac wedyn yr ail act: '*Clywir swên y tân yn clecian a dyma Gwenllian yn gwisgo hen ffrog werdd, yn eistedd ar gadair bren syml yn troi'r cinio mewn pot mawr du sy'n hongian dros y tân*'.

Yn ogystal â chyfarwyddiadau sy'n berthnasol i'r llwyfan, ceir cyfarwyddiadau sy'n berthnasol i'r cymeriadau, neu'r actorion. Bydd y math hwn o gyfarwyddiadau yn cyfarwyddo actorion o ran sut i ymateb, siarad a symud. Ac mae'r cyfarwyddiadau hyn yn allweddol i ddrama lwyddiannus oherwydd gall actor da ddweud cymaint mwy â'i wyneb, ei osgo a'i ystum nag y gall drwy eiriau'n unig. Cytuna Alan Ayckbourn â'r datganiad hwn, gan fod modd i actor gyfleu ystum bach a disodli erwau o destun (Ayckbourn, 2002, t.36).

Ymhellach, er y bydd y cyfarwyddiadau i gymeriad weithiau'n gynnil, gallant gael effaith sylweddol gan ychwanegu at naws y ddrama. Ystyriwn eto ratoriaeth *Siwan* yn hyn o beth. Yn yr act gyntaf, mae Siwan yn siarad ag Alis ac mae Alis yn siarad am Gwilym Brewys ac yn ei gymharu â Trystan: 'Pan edrycha'i ar Wilym Brewys. / Mor ifanc a hoyw a chwerthinog. / Ail Trystan y gwela' i ef...'. Mae Siwan yn troi at

Alis gan dorri ar draws y modd y mae'n cribo ei gwallt ac 'yn rhoi bonclust iddi'. Mae'r cyfarwyddiad hwn, er ei fod yn gyfarwyddiad bach, yn un arwyddocaol. Mae'n dweud wrthym fod gan Siwan deimladau tuag at Gwilym Brewys, ac mae'n dweud llawer wrthym am ei hawdurdod dros ei morwyn ac am y gwrthryfel yn ei chalon hi (Lewis, 2002, t.36).

Drama arall sy'n cynnwys cyfarwyddiadau allweddol yw *Gymerwch chi Sigaret?* gan Saunders Lewis. Ceir enghraifft yn y ddrama hon yn y drydedd act pan mae Iris yn siarad ar y ffôn â Marc gan adael iddo wybod lle y mae hi, sef 'Ty'r Heddlu'. Rhydd Saunders Lewis gyfarwyddiadau manwl i ni ynghylch sut mae'r cymeriad Iris yn siarad a'r ffordd mae hi'n ymddwyn wrth siarad â Marc ar y ffôn, a hithau'n eistedd wrth ddesg yn defnyddio meicroffon a chlustffonau: '*Golwg angau ar Iris; sieryd yn araf a chydag ymdrech, fel y dywed y swyddog wrthi. Y mae ei dwylo hi y tu cefn iddi. Ni ddengys y meimio unrhyw gam-drin o gwbl, ond y mae Iris mor ufudd ag awtomaton*' (Lewis, 1996, t.668). Drwy'r cyfarwyddiadau llefaru ac actio, gallwn ddeall yn well y sefyllfa y mae Iris ynnddi.

Yn debyg i *Siwan*, yn act gyntaf fy nrama innau, gwelir Gruffudd ap Cynan yn rhoi bonclust i Gwenllian. Dyma amlygu rhywbeth am ei gymeriad a'r fath berthynas sydd rhwng y tad a'r ferch: '*Ond wrth iddi hi ddal ei ysgwydd ac agor ei cheg, dyma'r brenin yn troi ati ac yn rhoi bonclust iddi hi ar draws ei hwyneb, gan dynnu gwaed o'i boch*'. Neu ystyrier enghraifft arall, sy'n manylu ar ystum er mwyn annog yr actor i gyfleu rhwystredigaeth y brenin, nid yn unig tuag at ei ferch Gwenllian, ond ato ef ei hun: '*Dyma Gruffudd yn meddwl yn ddwfn, yn ocheneidio ac yn taro ei law ar ei gist wrth i Gwenllian edrych arno yn ddwfn a'i llygaid yn fawr agored*'.

Rhaid nodi nad yw cyfarwyddiadau llwyfan bob amser yn amlwg. Weithiau gall gweithredoedd gael eu cynnwys yng ngeiriau'r cymeriadau. Yn y ddrama *Siwan*, mae Alis yn dweud, 'Dyna'r wisg arian yn rhydd o'r diwedd, *madame*' (Lewis, 2002, t.34), sy'n cyfeirio'n benodol at ddigwydd penodol.

Mae'n werth nodi hefyd mai ychydig iawn o gyfeiriadau llwyfan a oedd gan Shakespeare. Yn wir, disgrifia Muriel Clara Bradbrook gyfarwyddiadau llwyfan Shakespeare fel 'crabbed' (Bradbrook, 1932, t.52), a disgrifia Emma Smith ei gyfarwyddiadau llwyfan fel 'inadequate' (Smith, 2017, t.99), gan awgrymu mai ychydig iawn a gynigiwyd ganddynt i'r actorion (Bradbrook, 1932, t.52). Fodd bynnag, fel yn achos yr enghraifft a nodwyd uchod o agoriad *Siwan*, roedd deialog Shakespeare yn gweithredu megis cyfarwyddiadau llwyfan yn y rhan fwyaf o olygfeydd. Fel y dywed Bradbrook: 'There is little business that is not implied within the dialogue' (Bradbrook, 1932, t.52).

Gwelwn felly fod cyfarwyddiadau llwyfan yn gwneud llawer mwy na dim ond ychwanegu at naws a gwybodaeth y ddrama. Mae'n dod ag elfen fyw i'r ddrama ac yn medru dweud wrth actorion sut i symud a sut i ymateb i gymeriad arall, ac yn medru awgrymu wrth gyfarwyddwr pa wrthrychau sy'n rhan o'r digwydd.

Sain

Ystyrier yr hyn sydd yn cael ei ddweud gan Jeffrey Hatcher am un o elfennau Aristoteles yn *Barddoneg*, sef cerddoriaeth: ‘In fact, we can stretch the definition of music. We can stretch it to include sound’ (Hatcher, 2000, t.48). Fel y mae Jeffrey Hatcher yn ei awgrymu, gall cerddoriaeth Aristoteles gynnwys ynddo unrhyw beth sy’n gwneud sŵn neu sy’n cael ei glywed. Er enghraifft, mae cymeriad yn siarad yn cyfrannu at yr elfen sain, fel y mae cymeriad yn taflu gwrthrych a hwnnw’n taro’r llawr. Ar y llaw arall, dylid nodi bod hyd yn oed ddistawrwydd llwyr hefyd yn ddefnydd o sain mewn theatr a drama, gan mai’r awdur sydd wedi dewis cynhyrchu’r distawrwydd hwn.

Gwelir defnydd effeithiol o sain yn y ddrama *Y Gorthrymedig* gan John Robert Evans: ‘*Sŵn o’r tuallan i’r drws. Daw milwyr i mewn. Mae un yn rhoi ei law ar ysgwydd y s. CYHOEDD. [Y swyddog cyhoeddusrwydd] ac yn tynnu’r meic o’i law pan ddisgyn y llen. Sŵn ergyd o wn’* (Evans, 1960, t.35). Wedi’r ergyd, byddai’r awditoriwm yn llawn tawelwch. Defnyddir amrywiaeth o synau, y milwyr a’r sain y tu allan, ac yna’r distawrwydd cyferbyniol wrth i’r llenni gau, dim ond i’n synhwyrau gael eu cyfarch gan sŵn bwled unigol. Yna tawelwch. Mae’r distawrwydd yn caniatáu i’r tensiwn gynyddu.

Mae sain, fel y cyfeirir ato yn yr adran hon, yn chwarae rôl enfawr yn y theatr ac mewn drama lwyddiannus. Dywed Lynne Kendrick fod sain yn ‘elfennol i wead rhyfeddol theatr’ (Kendrick, 2011, t.1). Yn aml, bydd yn cydweithio ag elfennau eraill.

Cred Mladen Ovadija fod sain yn y theatr heddiw wedi’i ‘gyfyngu i’w rôl berthynol’ ac mae’n gweithio gyda ‘gosod llwyfan a goleuo’ i gyflawni tasgau fel diffinio lleoliad y gweithgaredd a naws yr olygfa, marcio’r darn amser a chyhoeddi dyfodiad neu ymadawiad actorion (Ovadija, 2013, t.10). Mae hyn yn sicr yn wir yn achos *Y Tŵr* gan Gwenlyn Parry. Mae dechrau’r ddrama yn cefnogi honiad Mladen Ovadija, sef bod sain yn gweithio mewn perthynas â gosod llwyfan a goleuo: ‘Pan gyfyd y llen, mae’r llwyfan yn dywyll. Cryfheir golau gwyrdd ar y ffenestr i greu’r argraff fod y golau yma yn llenwi’r ystafell’. Ac ymhellach, ‘Yn yr un modd, cryfheir miwsig. Nid miwsig naturiol yng ngwir ystyr y gair ydyw, ond rhyw fath o ddilyniant o synau haniaethol, cynhyrfus ac arallfydol’ (Parry, 2001, t.209).

Enghraifft arall o ddrama sy’n amlinellu’n glir y defnydd o sain i greu awyrgylch yw *Cegin y Diafol* gan Siôn Eirian. Defnyddir sain i greu’r awyrgylch ar ddechrau’r ddrama ond hefyd drwy gydol y ddrama. Dyma’r cyfarwyddiadau: ‘CERDDORIAETH GAN ENYA (o’r trac “Boadicea”), I GYFLEU NAWS DWYS [sic] A DI-AMSER, AR DDECHRAU’R OLYGFA, AC MEWN MANNAU ERAILL ADDAS DRWY GYDOL Y DDRAMA’ (Eirian, 2001, t.6).

Os mai ar gyfer creu naws yn y theatr heddiw y defnyddir sain yn bennaf, yna rhaid nodi bod aelodau’r gynulleidfa yn hynod o bwysig wrth lunio drama a chynnwys sain, gan mai nhw sy’n gorfod eistedd yn awyrgylch a seiniau’r ddrama. Y gwir amdani yw bod y gynulleidfa bellach yn disgwyl i sain gael ei llunio mor ofalus â gweddill y ddrama (Benedetto, 2012, t.159). Enghraifft ddiweddar o ddrama Gymraeg sy’n cyfuno’r defnydd o sain a cherddoriaeth gyda theatr draddodiadol yn ofalus yw *Ynys Alys*. Drama yn seiliedig ar ferch ifanc yn gadael cartref am y tro cyntaf yw hon ac wrth wneud hynny, mae’n wynebu ei hofnau ac mae’r elfen o wrthdaro mewnol ac allanol yn ei bywyd yn cael ei chyfleu drwy’r gerddoriaeth.

Gwelsom '[t]heatr, cerddoriaeth bop a rap yn gwrthdaro yn y cynhyrchiad Cymraeg hwn' i gyfleu'r newid byd hwn yn y cymeriad ei hun ac yn y Gymru gyfoes (Sherman Theatre, 2021).

Nid yw fy nrama *Gwenllian* yn defnyddio cerddoriaeth i'r un graddau ag y mae *Ynys Alys* yn ei wneud. Nid ar ddamwain y digwyddodd hyn. Wrth lunio fy nrama roeddwn i eisiau ei chadw mor agos at realiti â phosib, sy'n golygu y byddai'r rhan fwyaf o'r synau yn y ddrama hon yn dod o'r cymeriadau a'u gweithredoedd. Er enghraifft, ystyrier y canlynol:

'Dyma bopeth yn dawel am eiliad rhwng y ddau. Dim ond sŵn y dorf o werin rydym yn ei chlywed a Gruffudd yn griddfan iddo'i hun wrth iddo fyseddu defnydd ei wisg gan gamu i'r gist yn ymyl ei wely ac yna eistedd arno fel hen ddyn.'

Fel y gwelir yn y darn uchod defnyddiais sŵn y dorf a sŵn Gruffudd ap Cynan yn griddfan iddo'i hun i lenwi'r distawrwydd. Yn hytrach na defnyddio effeithiau sain – er enghraifft, cerddoriaeth nad yw'n perthyn i leoliad y digwydd, cerddoriaeth na fyddai'r cymeriad yn ei chlywed ei hun – dewisais gadw at sain y lleoliad, y griddfan, a sŵn y dorf sydd yng nghlyw'r cymeriad a'r gynulleidfa fel ei gilydd.

Wrth sôn am ddisgrifiad Eugenio Barba o ddramatwrgiaeth a'r broses o drawsnewid testun y ddrama yn destunol rwydd perfformiadau llwyfan, mae Mladen Ovadija yn amlinellu tri cham yn y broses o drawsnewid, sef 'dramodeg naratif', 'dramodeg organig neu ddeinamig' ac yna 'dramodeg o gyflyrau cyfnewidiol', sef yr hyn a welwyd yn achos *Ynys Alys*. Yna mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol: 'the first type of dramaturgy still holds to the Aristotelian concept of drama, the last two remind us of the avant-garde methods of assaulting the audience with deliberate sensory overload and immersing spectators in a performance sound/event' (Ovadija, 2013, t.4). Gan ddefnyddio sain, gallwn awgrymu wrth aelodau'r gynulleidfa sut y dylen nhw deimlo ar adeg benodol. Er enghraifft, bydd cerddoriaeth araf yn y cywair lleddf yn awgrymu bod moment yn un drasig.

Ymhellach, oherwydd datblygiadau technolegol, mae'n bosibl trin sain yn fwy effeithiol heddiw. Er enghraifft, mae gennym y gallu i banio sain. Dyma le gall y sain mewn theatr neidio o ochr chwith y clyw i'r dde. Mae'r math hwn o sain yn fwy effeithiol gyda chlustffonau ond gellir ei ddefnyddio yn yr awditoriw m hefyd, i gyfleu, er enghraifft, sŵn march yn rhedeg o'r chwith i'r dde.

Datblygiad arall yw sain amgylchynol, pan yw gynulleidfa yng nghanol tri neu fwy o seinyddion uchelseinydd fel bo'r person sy'n gwrando wedi'i amgylchynu gan y sain. Noda Di Benedetto: 'the capabilities of surround sound in cinema, and other developments have trained theatre audiences to expect more from theatre production' (Benedetto, 2012, t.163). O ran fy nrama i, *Gwenllian*, byddai modd defnyddio'r dechneg hon mewn nifer o olygfeydd. Ceir enghraifft bosib ar ddechrau'r ddrama, pan glywn gynghorwyr y brenin yn siarad â'r brenin cyn iddo ymddangos ar y llwyfan ac i mewn i'w ystafell wely gyda Gwenllian. Er nad yw'r cyfarwyddiadau'n cyfeirio at y dechneg hon, byddai'n effeithiol yma:

'Clywir sylwadau cynghorwyr y brenin yn dilyn eu cyfarfod gyda'r llysgenhadon cyn i unrhyw un ddod i mewn i'r ystafell: "Wn i ddim, frenin, a yw hyn yn syniad da. Dim ond llanc yw Gruffudd ap Rhys, ac fe gwyd Deheubarth cyfan yn ein herbyn os lladdwn ef." "Ac eto, mae'n gyfle. Dan nawdd Brenin Lloegr, oni allwn ennill tiroedd i Wynedd drwy ymosod ar Ddeheubarth?"'

Mae sain, er yn gynnil, yn chwarae rôl bwysig yn y mwyafrif o’r drama. Mae hyd yn oed y synau lleiaf o fewn y ddrama yn ychwanegu at yr awyrgylch, ac maent i’w canfod ym mhob man. Ceir enghraifft yn yr act gyntaf yn y cyfarwyddiadau llwyfan: ‘Dyma Gruffudd yn meddwl yn ddwfn, yn ochneidio ac yn taro ei law ar ei gist wrth i Gwenllian edrych arno yn ddwfn a’i llygaid yn fawr agored’. Efallai mai synau cynnil yw’r rhain, ond maen nhw’n ychwanegu at naws ac ystyr y ddrama. Pan fydd Gruffudd yn ochneidio, clywn ei siom, sy’n ein helpu i ddeall bod y foment hon yn un dawel a meddylgar. Wedi sylweddoli maint ei siom cawn ein taro wedyn gan glec rhywbeth sy’n rhoi sioc i ni. Clywn y siom yn troi’n rhwystredigaeth wrth iddo daro’r gist a chreu sŵn sydyn ac uchel.

Deialog ac Iaith

Er ei bod yn amhosib dadlau gyda honiad Alan Ayckbourn, sef bod gan actor y gallu i newid erwau o destun drwy un ystum bach (Ayckbourn, 2002, t.36), ni ellir gwadu mai geiriau llafar, y ddeialog, yw'r mwyafrif o gynnwys y rhan fwyaf o ddramâu. Ffurf ar lenyddiaeth berfformiadwy i'w llefaru yw drama, felly nid yw'n syndod fod deialog ac iaith yn hollbwysig i greu drama lwyddiannus (Bentley, 1965, t.70).

Cyfeiria Emyr Edwards at ddeialog drama fel 'trysor pennaf y dramodydd' (Edwards, 2012, t.74). Ymhellach, meddai: 'Y peth pwysicaf o bell ffordd i ddramodydd, neu ddarpar ddramodydd, ei gofio yw mai deialog drama yw sylfaen ei grefft ac yn y pen draw ei gelfyddyd' (Edwards, 2012, t.87). Mae llawer o feirniaid a dramodwyr yn cytuno â'r honiad hwn, megis David Edgar sy'n dweud mai deialog yw bloc adeiladu sylfaenol y rhan fwyaf o ddramâu (Edgar, 2012, t.154).

Er mwyn deall pam fod deialog mor bwysig i ddrama, mae'n bwysig edrych arni mewn cyfatebiaeth i rai o brif agweddau eraill drama, megis cymeriad a chyfnod. Bydd edrych ar sut mae'n effeithio ar y rhain wedyn yn dangos pam y mae awduron yn credu mai dyma'r agwedd bwysicaf wrth ysgrifennu drama.

Y berthynas gyntaf yr edrychir arni yw deialog a chyfnod. Nodais yn barod fod cyfnod y ddrama'n effeithio ar y math o iaith a ddefnyddir mewn deialog. Os ceir drama sydd wedi ei lleoli yn y gorffennol, fel *Siwan*, 'Bore Calan, Mai 1231', bydd yr iaith yn wahanol i'r iaith a ddefnyddir wrth gyfansoddi drama wedi ei lleoli yn y Gymru gyfoes. Defnyddir geirfa ac arddull fwy llenyddol a chlasurol er mwyn ceisio cyfleu'r pellter amseryddol, a defnyddir ymadroddion Catholig i gyfleu natur grefyddol y gymdeithas ganoloesol.

Ar y llaw arall, sylwer ar y math o iaith a ddefnyddir yn y ddrama *JAC YN Y BOCS* gan Emyr Edwards. Mae'r ddrama hon yn cyfleu amser yn nes at yr oes fodern ac mae'r defnydd o iaith yn cefnogi hyn. Sylwer ar y sgwrs ganlynol rhwng MERCH 1 a MERCH 2 ar ddechrau'r ddrama, sy'n cynnwys ynddi ffurfiau tafodieithol ac enghreifftiau o gôd-groesi rhwng y Gymraeg a'r Saesneg:

- MERCH 1: Ac fe ddwedais wrthi, nawr, Matti, cariad, ble mae dy fanars, yn siarad felna â'r bôs.
- MERCH 2: A be' ddwedodd Matti wrtho?
- MERCH 1: Dos i'r diawl!
- MERCH 2: Jiw, jiw!
- MERCH 1: Yn siarad ag aelod o'r Cynulliad felna!
- MERCH 2: Risgi.
- MERCH 1: A hithau'n ysgrifenyddes iddo fe!
- MERCH 2: Blydi cheek! Be' ddigwyddodd wedyn? (Edwards, 2016, t.5).

Gwelwn drwy'r enghraifft hon fod cyfnod y ddrama nid yn unig yn effeithio ar y modd y dywedir rhywbeth, ond hefyd yr hyn a ddywedir. Mae cynnwys deialog rhywun yn dibynnu'n fawr ar yr y cyfnod y mae'r ddrama wedi'i seilio ynddo. Er enghraifft, mae'r alwad ffôn yn allweddol i'r ddrama, *Gymerwch chi Sigaret?* ond rydym yn byw yn oes y memrwn a'r proclamasiwn llafar yn *Esther*: 'Allan o olwg ar y

dde y mae tyrfa o negeswyr yn gwrando proclamasiwn. Saif HARBONA a memrwn yn ei law ar ben y grisiau yn darllen y proclamasiwn’ (Lewis, 2000, t.210).

I ymhelaethu ar hyn, ystyrier effaith y tanc yn *Wyneb yn Wyneb* gan Emyr Edwards. Mae'r ddrama yn seiliedig ar fachgen sy'n fodlon sefyll yn ffordd swyddog a'i ddyletswyddau dros yr hyn y mae'n credu sy'n iawn, sy'n arwain at y swyddog yn stopio ei danc a siarad â'r bachgen. Trwy'r ddrama mae'r swyddog yn ceisio cael y bachgen i symud o'r lle y mae'n sefyll, sef o flaen ei danc:

Y SWYDDOG: Symud! Symud! Blydi symud, wnei di?
Y BACHGEN: Rw i'n gweld. Colli tymer? (Edwards, 2011, t.149).

Mae'r swyddog a'r bachgen yn siarad am y tanc sawl gwaith yn y ddrama. Sylwer ar y sgwrs hon:

Y SWYDDOG: Y peiriant yma sy'n rheoli, ngwas i.
Y BACHGEN: Nid talp o fetel sy'n rheoli dynion.
Y SWYDDOG: Grym, hogyn. Grym metel. Grym sy yn fy ngofal i. Ond i fi wasgu un botwm ac fe fydd dy gyfiawnder di a'th siort yn waed ac yn esgryn ar wastad y concrit yma.
Y BACHGEN: Dyna dy job di, filwr. Gwna fe! (Edwards, 2011, t.154).

Mae'r tanc yn nodwedd hanfodol o'r ddrama hon a'i deialog. Ceir ynddi'r un thema ag *Esther*, sef chwant dynion am rym, ond mae cynnwys y ddeialog wedi ei wreiddio mewn cyfnod gwahanol.

Ceir perthynas hefyd rhwng cymeriad a deialog. Mae deialog yn diffinio cymeriad ac felly'n gwneud y cymeriad yn unigryw ac ar yr un pryd yn gofiadwy. Sylwer ar yr hyn y mae Jeffrey Hatcher yn ei ddweud: 'A well-drawn character with language specific to that character will *never* sound like another character' (Hatcher, 2000, t.46). Ystyrier y dyfyniad enwog canlynol: 'To be, or not to be: that is the question: Whether 'tis nobler in the mind to suffer...' (Shakespeare, 1971, t.50). Dyma eiriau enwog Hamlet, a geiriau enwocaf Shakespeare o bosib. Dyma enghraifft berffaith o pam mae deialog yn bwysig i gymeriad. Mae'r ddeialog hon yn gwneud y cymeriad hwn yn unigryw ac felly'n ei wneud yn gofiadwy. Cred William Anderson fod yr araith hon yn bwysig i'r ddrama, nid yn unig oherwydd ei bod wedi'i hysgrifennu ag iaith feistrolgar ond oherwydd ei bod yn dangos ochr newydd i'r cymeriad, ochr feddalach a mwy emosïynol (Anderson, 2020).

Nid yn unig yr hyn y mae cymeriad yn ei ddweud sy'n bwysig pan ddaw i'r berthynas rhwng cymeriad a deialog. Gall y ffordd y mae cymeriad yn dweud ei eiriau effeithio ar ei hunaniaeth hefyd. Os yw cymeriad yn siarad neu'n ateb yn gyflym wrth ymateb i eiriau cymeriad arall, gall hyn roi'r argraff ei fod yn ddi-hid. Ar y llaw arall, gall cymeriad sydd yn cymryd ei amser i ymateb rhoi'r argraff ei fod yn bwylllog ac yn ystyriol, neu'n ddoeth hyd yn oed (Walters, 2010, t.132).

Yn fy nrama *Gwenllian*, mae tad Gwenllian, Gruffudd ap Cynan, mewn un man yn oedi cyn iddo lefaru. Yn yr adran hon, mae Gwenllian yn ceisio cael ei thad i ymladd yn erbyn Henri yn lle dilyn gorchmynion Henri a mynd ar ôl ei chariad, Gruffudd ap Rhys:

Gwenllian: Y naill ffordd neu'r llall, mae brwydr yn ein haros, boed hynny wrth law Deheubarth a Gruffudd ap Rhys neu wrth law Henri a'i fyddin. Gadewch imi ofyn, felly, onid yw'n well ymladd yn erbyn Lloegr, y wlad sydd am ein cadw dan ei bawd, nag yn erbyn brodyr cyfaith?

Saib. Cymera Gruffudd eiliad i gasglu ei feddyliau wrth iddo syllu i'r gwagle.

Gruffudd: Duw a'm gwaredo. Fedra' i ddim Gwenllian. Fedraf fi ddim ymladd yn erbyn Henri nac anufuddhau i'w orchmynion. Pa ennill sydd o ymladd yn erbyn Henri a'i fyddin? Byddwn i ond yn ei fradychu ac yn atebol i'r un gosb â'r bradwr hwnnw, Gruffudd ap Rhys.

Drwy gyfrwng saib, deallwn fod Gruffudd yn ystyried y cwestiwn sydd wedi'i gyflwyno ger ei fron ac yn pwysu a mesur y ddau opsiwn, cyn rhoi ymateb priodol. Heb y saib, ni fyddai'r un gwerth theatrig yn perthyn i'w eiriau.

Dylid nodi y ceir perthynas mewn drama rhwng deialog ac emosiwn hefyd. Gall deialog ddangos sut y mae cymeriadau'n teimlo, eu tensiwn, y gwrthdaro rhyngddynt, ac ynddynt, teimladau o gariad a chasineb. Nid yn unig y mae deialog yn dangos y pethau hyn: gall hefyd greu ac adeiladu arnynt trwy gydol y ddrama, o'r dechrau i'r diwedd. Cred Alan Ayckbourn y gall deialog a detholiad o eiriau ddiffinio ein hagwedd a'n hwyliau (Ayckbourn, 2002, t.48). Drama sy'n dangos emosiwn rhywun trwy ddeialog effeithiol yw *Saer Doliau*. Ar ddechrau'r ddrama, gallwn weld emosiwn Ifans tuag at ei ddoliau. Mae'n eu trin fel pe baent yn fyw ac yn edrych fel pe bai'n gofalu amdanynt fel plant. Mae hyd yn oed yn rhoi enwau iddyn nhw, 'Bore da, blant... Leusa, Marged, Siani, Betsan, Gyglis...' (Parry, 2001, t.61-62). Er y gellir disgrifio deialog fel proses o draddodi geiriau rhwng cymeriadau, rhaid sylweddoli y gellir edrych arno hefyd o ran yr hyn y mae'n ei ddweud wrthym am gyflwr meddwl unigolyn (Walters, 2010, t.119).

Ynghyd â chymeriadau, mae deialog yn caniatáu i blot y ddrama ddatblygu. Gall deialog fod yn ffordd o symud y stori yn ei blaen ac yn y pen draw tuag at ei diwedd. Wrth gyfeirio at ddeialog dda, dywed Jeffrey Hatcher: 'good dialogue creates an event, changes the dynamic of the plot, and alters the characters' lives' (Hatcher, 2000, t.45).

Gwelir enghraifft o ddeialog yn creu digwyddiad ac yn newid deinameg y plot yn act gyntaf *Siwan* rhwng Siwan a Gwilym Brewys. Trwy'r ddeialog dysgw'n fod Siwan yn ymwybodol y gall fod canlyniadau i'w pherthynas â Gwilym Brewys:

SIWAN: 'Does dim lle i anhrefn serch mewn llywodraeth teulu a gwlad. Unwaith erioed y gedais i i'm calon ymyrraeth â pholisi. (Lewis, 2002, t.41).

Gallwn weld bod Siwan yn cydnabod bod ganddi ddyletswydd at ei theulu a'i gwlad, ac na ddylai fentro godinebu oherwydd hynny (Richards, 2012, t.9).

Wrth i'r sgwrs ddatblygu, amlinellir nad yw Gwilym Brewys yma i drafod gwleidyddiaeth ond i brofi 'serch' gyda Siwan:

GWILYM: Nid i siarad am wleidyddiaeth y des i i'th stafell di heno. (Lewis, 2002, t.42).

Dysgw'n fod Siwan hithau'n teimlo'r angen i brofi'r math hwn o gariad gyda Gwilym Brewys (Richards, 2012, t.9):

GWILYM: Oes arnat ti ofn y gwir?

SIWAN: Nid ofn y gwir, ond ofni, hwyrach, ei glywed; Gellir stablu peth yn y meddwl sy'n wyllt yn y glust.

GWILYM: 'Dwyf i ddim yn ddychryn iti, Siwan?

SIWAN: Nag wyt ddim oll; ond mae ynof i fy hun Bethau'r wyt ti'n eu deffro sy'n ddychryn imi.

GWILYM: Y pethau sy'n gwneud bywyd yn bêr.

SIWAN: Y pethau sy'n gwneud byw yn chwerw, Pethau a fu'n fud ac a guddiais i o'm golwg fy hun, Am nad oedd gennyf gyfran ynddynt, am fy mod i yma'n Alltud, a'm hunig werth yw fy ngwerth i gynnydd gwlad. (Lewis, 2002, t.42).

Mae'r ddeialog rhwng y ddau gymeriad hyn yn yr act gyntaf yn siapio sut y mae'r ddrama'n datblygu. Yn y pen draw, mae eu gweithredoedd a'u hanghenion a fynegir trwy'r ddeialog yn arwain at grogi Gwilym:

LLYWELYN: Caiff grogi fel lleidr pen ffordd. (Lewis, 2002, t.54).

Gwelir enghraifft gymharus o ddatblygu emosiwn a phlot trwy ddeialog yn fy nrama *Gwenllian*. Ystyrier yr act gyntaf rhwng Gruffudd ap Cynan a Gwenllian. Mae brwydr gyson rhwng y ddau, gwrthdaro a gwahaniaeth barn. Mae Gruffudd ap Cynan yn credu y dylid cosbi Gruffudd ap Rhys am ei droseddau ac y dylai ef a'i deyrnas, gan gynnwys Gwenllian, ufuddhau i Henri:

Gruffudd: Duw a'm gwaredo. Fedra' i ddim Gwenllian. Fedraf fi ddim ymladd yn erbyn Henri nac anufuddhau i'w orchmynion. Pa ennill sydd o ymladd yn erbyn Henri a'i fyddin? Byddwn i ond yn ei fradychu ac yn atebol i'r un gosb â'r bradwr hwnnw, Gruffudd ap Rhys.

Yma mae ei farn yn glir. Er nad dewis delfrydol yw dilyn Henri, mae'n amlwg ei fod yn credu bod yn rhaid iddo, er mwyn ei deyrnas. I ychwanegu at hyn, sylwer ar y gair y mae'n ei ddefnyddio yng nghyswllt Gruffudd ap Rhys, 'bradwr'. Mae'r un gair hwn yn amlygu grym ei deimlad a pha mor debygol y mae i weithredu yn unol â'i air.

Ar y llaw arall, mae Gwenllian yn credu'n hollol i'r gwrthwyneb. Mae hi'n credu y dylent ymladd yn erbyn Henri ac mae hi'n credu bod Gruffudd ap Rhys wedi gwneud yr hyn a oedd yn iawn:

Gwenllian: Wrth hwn, y mawr hwn, pa beth a ddywedaf? Gadewch...Gadewch inni gasglu ein lluoedd yn awr. Gadewch inni ymosod ar ein gelynion, yn yr awr ni thybiant. Yr elfen o syndod fydd eu tranc. Yn wir, mi af fy hun â byddin i Loegr. Gadewch i mi eu gyrru yn ôl, ymhell o erwau'n gwlad! Fe'm gwelsoch â'r cleddyf yn fy llaw. Rwyf gan mil gwell nag Owain.

Ymhellach, wrth sôn am Gruffudd ap Rhys a'i thad yn cyfeirio ato fel bradwr, dywed:

Gwenllian: A beth yw camwedd Gruffudd ap Rhys? Fy mrenin, mae ond yn ymladd i adennill teyrnas ei dad a rhyddid ei frawd. Sut bosib y mae'n fradwr? Mae'n ymladd dros ei etifeddiaeth, a thros yr hyn y mae'n ei garu.

Canlyniad y gwrthdaro a'r anghytundeb barn rhwng y ddau gymeriad hyn ar ddechrau'r ddrama yw bod y ddau gymeriad yn gwneud dau benderfyniad anferth, sy'n gosod y trywydd ac yn pennu'r nawws ar gyfer gweddill y ddrama. Ar ddiwedd yr act, mae Gwenllian yn penderfynu gadael ei thad ac ymuno â'i chariad Gruffudd ap Rhys. Mae ei thad, Gruffudd ap Cynan, yn penderfynu gadael iddi fynd, gan ddweud y canlynol:

Gruffudd: Cofiwch Gwenllian, y bydd yn rhaid i fy hysbysu Henri o'ch yamdawiad. Fedrwn ni ddim mwy esgus ein bod ni ein dau yn deulu. Ar faes y gad, bydd eich gŵr yn elyn i mi. Rwyf fi hefyd yn gadael heno am Lundain, yng nghwmni'r cenhadon a ddaeth yma i gwrdd â'r brenin ei hun. Felly, ewch nawr Gwenllian, gan wybod bod eich tad yn eich caru'n annwyl, ond na all ef ddim mo'ch gweld chi ddim mwy, dim mwy na'i elyn ei hun.

Drwy'r ddeialog, felly, gwelwn ddatblygiad y plot ac ystâd emosiynol y cymeriad.

Y berthynas olaf yr edrychir arni yw deialog a digwydd, gair sy'n perthyn yn agos i blot. O ystyried mai geiriau llafar yw cyfran helaeth o'r ddrama, mae'n anochel bod rhywfaint o'r digwydd, os nad y cyfan ohono, yn digwydd trwy'r ddeialog. Yn wir, gall deialog mewn gwirionedd fod yn fath o weithredu, ac yn rhan o 'saerniaeth y digwyddiadau' (Aristoteles, 2001, t.80). Fel y dywed Emyr Edwards: 'Os yw llafar yn ffurf ar weithredu, ac os yw gweithredu yn ganolog i'r hyn a elwir yn ddrama, yna rhaid rhoi blaenoriaeth i ysgrifennu deialog wrth ystyried y grefft o greu drama' (Edwards, 2012,t.84).

O ran deialog ac iaith yn fy nrama *Gwenllian*, nid oedd modd i mi ddiystyru ei phwysigrwydd. Mae'r ddrama yn un hanesyddol ac wedi ei gosod yn y canol oesoedd, felly roedd yn bwysig rhoi sylw i gynnwys y ddeialog a'r math o ieithwedd i'w ddefnyddio. Oherwydd hyn, cymerodd lawer o ddrafftiau i mi ddatblygu'r ddeialog a'r iaith. Fel y dywed Saunders Lewis: 'Problem fawr y ddrama Gymraeg yw iaith theatr... Mi fûm i fy hun yn ymgodymu â'r broblem hon drwy fy mywyd' (Williams, 1961, t.13).

O ystyried mor bwysig yw deialog a llunio ieithwedd addas i gyfleu cyfnod yn fy nrama, penderfynais gymryd cyngor gan Tim Fountain yn ei lyfr *So You Want To Be A Playwright?* Meddai ef: ‘in first drafts it is probably advantageous to write the play as though it were some kind of B-Movie’ (Fountain, 2003, t.41). Mewn gair, dylid ysgrifennu o safbwynt y digwydd yn bennaf, nodi’r hyn y mae’r dramodydd am i’r cymeriadau ei ddweud neu ei wneud yn y drafft cyntaf. Roedd y dull hwn yn fy ngalluogi i ddatblygu’r cysylltiad rhwng deialog y plot a’r cymeriadau, gan roi drafft cyntaf cryf i mi weithio ohono, gan ddiwygio’r iaith.

Ar ôl i’r drafft cyntaf gael ei ddatblygu roedd yn bwysig wedyn ganolbwyntio ar y ddeialog a’r iaith a oedd yn mynd i bortreadu fy nghymeriadau a’u hunaniaeth unigryw. Cymerodd hyn lawer o ddrafftiau gan fod pob un o’r cymeriadau yn swnio’n wahanol ac mae cynnwys eu deialog yn amrywio ychydig o bryd i’w gilydd ac yn wahanol i gymeriadau eraill. Fodd bynnag, ar ôl cynnal ymchwil i hanes y cymeriadau, y cyfnod dan sylw, a thrwy edrych ar ddramâu hanesyddol eraill wedi’u gosod mewn cyfnod tebyg i f’un i, llwyddais i lunio deialog sy’n portreadu cyfnod, cymeriadau a phlot fy nrama, gobeithio. Dyma ddwy enghraifft o’r un adran o’r ddrama, ond ar wahanol adegau cyfansoddi. Yr enghraifft gyntaf yw’r enghraifft sy’n dangos y ddrama wrth iddi fynd trwy’r holl broses hon:

Gruffudd: Gwenllian! Daliwch eich tafod!

Gwenllian: Na wna fy nhad. Dim heddiw. Fi wyf fi. Rhaid i mi gael dweud hynny. Ac oni wyddoch chi hyn, nad fi yw fy mrodyr na’ m chwirydd. Nid Owain mohono’i, a’ch gair yn ei wysio i hwylio â Henri i Ffrainc.

Gruffudd: O ho! Y fath ryfgy. (*dan chwerthin, mewn syndod ond yn eironig*) Merch ei thad, aie? Felly pa berlau sydd gennych ar fy nghyfer? Beth yw’r awgrym ferch? Dewch, pregethwch ger fy mron drywydd y dyfodol!

A dyma’r drafft terfynol, wedi imi ddiwygio’r mynegiant:

Gruffudd: Gwenllian! Er mwyn Duw, ffrwynwch eich tafod!

Gwenllian: Na wna fy nhad. Dim heddiw. Fi wyf fi. Rhaid i mi gael dweud hynny. Fi. Mi rydw i’n ferch. Yn berson. Ac oni wyddoch chi hyn, nad fi yw fy mrodyr na’ m chwirydd? Nid Owain mohono’i, a’ch gair yn ei wysio i hwylio â Henri i Ffrainc.

Gruffudd: O ho! Y fath ryfgy. (*dan chwerthin, mewn syndod ond yn eironig*) Merch ei thad, aie?

Gwelir sut rwyf wedi cynnwys ymadroddion newydd a thocio brawddegau cyfain hefyd wrth geisio siapio’r ddeialog i gefnogi’r gymeriadaeth.

I gloi, mae darllen barn arbenigwyr ym maes crefft drama wedi cael effaith sylweddol ar fy nrama i. Bu archwilio elfennau’r ddrama lwyddiannus yn help wrth i mi geisio datblygu syniad gwreiddiol fy nrama ar

ffurf dwy act, gan geisio creu cymeriadau cofiadwy. Y prif wersi a ddysgais oedd, yn gyntaf, defnyddio'r drafft cyntaf megis llyfr nodiadau, gosod yr hyn yr wyf am ei weld yn digwydd neu'r hyn yr wyf am i'r cymeriadau ei ddweud yn ei ffurf symlaf fel bo gennyf rywbeth i weithio ohono. Yn ail, dysgais fod cymeriadau, plot, deialog a'r holl elfennau eraill a drafodir yn y traethawd hwn i gyd yn bwysig. Rhaid ystyried y cyfan. Nid oes modd dibynnu ar gymeriad neu blot yn unig gan fod angen rhoi sylw i bob elfen, a cheisio gweld y cyfan drwy lygaid theatraidd.

Llyfryddiaeth

Anderson, W. (2020). *Importance of Hamlet's Soliloquies in Shakespeare's Hamlet*. School work Helper. <https://schoolworkhelper.net/importance-of-hamlets-soliloquies-in-shakespeares-hamlet/?fbclid=IwAR1QrTiiAifzdqhG1mQCgeCXIJuY8jcTaIvw3TMHVc0ICJby9OwSPMqinks>

Archer, W. (1913). *Play-making: a manual of craftsmanship* (New ed.). Chapman & Hall.

Aristoteles. (1965). *'Poetics' in Classical Literacy Criticism, trans. T.S. Dorsch. (t.40)*. London and New York: Penguin.

Aristotle., & Griffiths, J. G. (John G. (2001). *Barddoneg* (Arg. newydd.). Gwasg Prifysgol Cymru.

Arrieta, A. (2021). *REVIEW ANFAMOL, THEATR GENEDLAETHOL CYMRU BY ANNA ARRIETA*. Get the Chance. <https://getthechance.wales/2021/10/04/review-anfamol-theatr-genedlaethol-cymru-by-anna-arrieta/#:~:text=Overall%2C%20I%20found%20the%20app,a%20clear%20sense%20of%20mission.>

Ayckbourn, A. (2002). *The Crafty Art of Playmaking*. Faber & Faber limited, London.

Bentley, E. (1965). *The life of the drama*. Methuen.

Bradbrook. M .C. (1932). *Blizabethan Stage Conditions*. Cambridge University Press.

Di Benedetto. (2012). *An introduction to theatre design*. Routledge.

Edgar, D. (2012). *How Plays Work*. Llundain: Nick Hern Books.

Edwards, E. (2011). *Adolff a dramâu byrion eraill*. Caerdydd: Emyr Edwards.

Edwards, E. (2012). *Sut i greu drama fer*. Cyhoeddiadau'r Gair.

Edwards, E. (2016). *Jac yn y bocs: a dramau byrion eraill*. Cardiff: Emyr Edwards.

Eirian. (2001). *Cegin y diafol*. Coleg Cerdd a Drama Cymru.

Evans, J. R. (1960). *Chwe drama fuddugol*. Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion.

Fountain, T. (2007). *So You Want To Be A Playwright?*. London. Nick Hern Books Limited.

Galsworthy, J. (2001). Some Platitudes Concerning Drama. In T. Cole. *Playwrights on Playwriting* (t.45-52). New York: Cooper Square Press.

Geiriadur Prifysgol Cymru. (2022). <https://www.geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>

- Griffiths, J. G. (2001). *Aristoteles*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Hallam, T. (2013). *Saunders y dramodydd* (H. M. Edwards, gol.). Gwasg Pantycelyn.
- Hatcher, J. (2000). *The Art & Craft of Playwriting*. Cincinnati: Story Press Books.
- Hawkes, T. (1977). *Structuralism and semiotics*. Methuen.
- Kendrick, L., & Roesner, D (eds). (2011). *Theatre Noise: The Sound of Performance*. Cambridge Scholars Publisher, Newcastle-upon-Tyne. Available from: ProQuest Ebook Central. [19 March 2022].
- Lewis, S. (1958). 'The Poet', yn 'The arts, artists and thinkers'. (John Murray Todd, gol). Llundain.
- Lewis, S., & Williams, I. M. (1996). *Dramâu Saunders Lewis: y casgliad cyflawn / Cyfrol 1*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Lewis, S., & Williams, I. M. (2000). *Dramâu Saunders Lewis: y casgliad cyflawn / Cyfrol 2*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Lewis, S. (2002). *Siwan*. Caernarfon: Sain. Print.
- McKee, R. (1999). *Story: substance, structure, style, and the principles of screenwriting* (Paperback ed.). London: Methuen.
- Morgan, M. (2021). *Anfamol*. Caron360. <https://caron.360.cymru/2021/anfamol/>
- Newton, P. (2002). *Gwenllian: the Welsh warrior princess*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.
- Ovadija, M. (2013). *Dramaturgy of Sound in the Avant-Garde and Postdramatic Theatre*. McGill-Queen's University Press. Montreal. Available from: ProQuest Ebook Central. [19 March 2022].
- Owen, R. (2013). *Gwenlyn Parry Writer of Wales*. University of Wales Press.
- Owen, R. (2013). *Gwenlyn Parry*. University of Wales Press.
- Parra, A. (2011). *Playwriting For Dummies*. John wiley & Sons.
- Parry, G. (2001). *Dramâu Gwenlyn Parry: y casgliad cyfan* (Arg. 1.). Gomer.
- Richards, H. (2012). *Nodiadau ar Siwan Saunders Lewis*. (F. Pughe, & C. Gwynn, gol.) Aberystwyth, Wales: Prifysgol Aberystwyth.
- Shakespeare., & Kean, C. J. (1971). Hamlet. In *Hamlet*. Cornmarket Press.

Sherman Theatre. (2021). *Frân Wen YNYS ALYS*. Sherman Theatre.
<https://www.shermantheatre.co.uk/event/ynys-aly/?lang=cy>

Smith, E. (2017). *Reading Shakespeare's Stage Directions*. In Dustagheer, S & Woods, G (Eds), *Stage Directions and Shakespearean Theatre*. Bloomsbury.

Thompson, Della., Fowler, H. W. (Henry W., & Fowler, F. G. (Francis G. (1995). *The Concise Oxford dictionary of current English*. (9th ed / edited by Della Thompson.). Clarendon.

Walters, S. (2010). *The Secret Life of Plays*. London. Nick Hern Books Limited.

Wandor, M. (2008). *The art of writing drama*. London, England: Bloomsbury.

Williams, J. E. (1961). *Tri dramaydd cyfoes: Saunders Lewis, John Gwilym Jones, Huw Lloyd Edwards*. Dinbych: Gwasg Gee.

Williams, T., & Edwards, E. (2009). *Rhith y Rhosyn*. Aberystwyth: Atebol.